

## Gwerthu Clogwyn Du'r Arddu



Gwranda ngenath i. Os mai cadwriaethwyr fel George Monbiot\* brynith y lle 'ma, fyddi di na finna' ddim yma wedyn.

Sgwn i pwy fydd ein lanlord newydd?

Mae talp sylweddol o lethrau'r Wyddfa ar werth, sef 112 acer yn cynnwys Clogwyn Du'r Arddu am y swm o £2.5 miliwn. Mae gweddill y 600 acer ar werth am £12,000 yr acer. Oes unrhyw un

o'r fro a digon o bres poced i'w fforddio?

(\* Darllenwch ei sylwadau 'Sheepwrecked' ar ei safle we)



# ECO'r Wyddfa

**RHIF 424  
Medi 2014**  
Argraffwyd gan  
Wasg Dwyfor  
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau  
ar e-bost i  
Dafydd Whiteside Thomas  
Bron y Nant, Llanrug  
01286 673515  
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD  
Y PWYLLGOR GWAITH**  
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**  
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (238495)  
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,  
Llanberis (870740)  
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**  
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**  
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**  
**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts,  
Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts,  
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.  
rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn  
Moelyn (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331)  
neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:**  
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

**grid** 76  
dylunio graffeg  
07766956673

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

| Rhifyn   | Copi i law | Bwndelu   | Ble         |
|----------|------------|-----------|-------------|
| Hydref   | Medi 21    | Hydref 3  | Penisarwaun |
| Tachwedd | Hydref 19  | Hydref 31 | Llanberis   |

## LLYTHYRAU

5 Heol Belmont, Bangor, LL57 2HS  
(01248) 371987; digwyddiadurgoriad@yahoo.co.uk

Annwyl Olygydd,

Ers bron dwy flynedd mae'r Goriad, papur bro ardal Bangor a'r Felinheli, wedi cynnwys Digwyddiadur, manylion cryno am ddigwyddiadau yn Gymraeg, neu o ddiddordeb i Gymry Cymraeg, yn yr ardal.

Yn ddiweddar, mae'r un wybodaeth wedi bod ar gael ar wefan Menter Iaith Bangor. Yno mae lle i gynnwys rhagor o fanylion, i sôn am ddigwyddiadau o ardal ehangach, ac i roi rhagor o rybudd. Mae rhywun yn synnu at y cyfoeth o ddigwyddiadau sydd ar gael. Cewch weld hyn eich hun ar wefan Menter Iaith Bangor, <http://www.menteriaithbangor.org/>.

A oes yn eich ardal gyngherddau, dramâu, eisteddfodau, teithiau cerdded, darlithoedd llenyddol ayb y byddai trigolion ardal Y Goriad â diddordeb ynddynt, ond iddynt wybod amdanynt mewn pryd? A gaf i ofyn i swyddogion cymdeithasau nodi cyfeiriad e-bost y Digwyddiadur, ac anfon atom fel mater o arfer wrth hysbysebu. Os hoffent dderbyn rhybudd cyn dedlein y papur bob mis, cânt anfon e-bost ataf rwan i gael eu cynnwys ar y rhestr bostio.

Os bydd rhywbeth wedi'i drefnu ymhell ymlaen llaw, ond y manylion heb fod yn hysbys, nid oes angen oedi. Rhaid wrth y dyddiad, y digwyddiad, a manylion cyswllt un o'r trefnwyr. Gellir ychwanegu'r amser, y lleoliad, y perfformwyr ac ati'n nes ymlaen.

Wrth gwrs, mae modd talu am hysbyseb amlycach yn y papur ei hun, ond bydd sylw ar y wefan ac, os bydd lle, yn Nigwyddiadur Y Goriad ar gael yn rhad ac am ddim.

Yn gywir,  
Ann Corkett, Golygydd Digwyddiadur y Goriad

Yr Eglwys Newydd, Caerdydd  
Gorffennaf 2014

## EISTEDDFOD Y CYMOEDD

Annwyl Gyd-eisteddfodwyr,

Eleni byddwn yn cynnal Eisteddfod y Cymoedd am yr wythfed flwyddyn yn olynol.

Cynhelir yr eisteddfod yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach eleni eto. A'r dyddiad yw nos Wener, 17eg o Hydref gan ddechrau am 5.00 o'r gloch.

Y beirniaid eleni yw Eleri Darkins a Wil Morus Jones (Cerddoriaeth), Anni Llyn (Llefaru a Llenyddiaeth Ieuencid), Aled Gwyn (Llenyddiaeth Agored), Marie Evans (Dawns) a Gwyneth Davies (Ffotograffiaeth).

Y cyfeilydd fydd Lowri Guy.

Byddai Ysgrifenyddion yr Eisteddfod, yn barod iawn i anfon atoch fwy o fanylion.

Cysylltwch â Sian Griffiths ar 02920 889295 neu [Sianpg@btinternet.com](mailto:Sianpg@btinternet.com);

Linda White ar 02920 882107 neu [lindacharnellwhite@gmail.com](mailto:lindacharnellwhite@gmail.com)

Mae croeso mawr yn eich disgwyl chi yn Ystrad Mynach nos Wener, 17eg o Hydref.

Yn gywir,  
R. Alun Evans, Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd

**Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?**

**Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis**

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50  
- gwledydd Ewrop £33.50  
- gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839

neu [olwenwaen@yahoo.co.uk](mailto:olwenwaen@yahoo.co.uk)

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru**

£20: er cof am Deanna Wynn Price, Pentir gan Edward a Joyce, Tregarth.

£14: di-enw Tan y Coed.

£10: Elizabeth a Mari Pleming, Cartrefle, Bryn Moelyn, Llanrug; Hefina Jones, 8 Rhos Rug, Llanrug; Elsie a Glenys (Llanrug a Brynrefail) er cof am Leslie a Doreen Williams, 9 Trem Eilian, Brynrefail gynt; Teulu'r ddiweddar Ann Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Myfanwy Davies, Snowdon Street, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Margaret Ann Griffiths, 7 Llainwen Isaf, Llanberis; Rhodd er cof am Robert Iorwerth Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Dorothy Carter (Pleming gynt), 1 Didfa, Llanrug; Clwb Peldroed Llanrug; Nia Oliver, Ysgol Cwm y Glo.

£5: Daniel Ellis, 3 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs Beti Roberts, 25 Rhydfadog, Deiniolen; Aled Jones, 3 Bryn Gof, Caeathro.

## WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House  
LLANRUG**

**PEN  
CIGYDDION  
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS  
SELSIG CARTRE  
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA  
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST  
**MYNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!!**

**(01286) 673574**

E

Gair gan y Golygydd.

W

Oedd, roedd y golygydd yn teimlo fel tynnu gwallt ei ben (yr ychydig sydd ganddo’n weddill!) o ganlyniad i rifyn Gorffennaf/Awst. Erbyn y nos Wener cyn ei anfon i’r Wasg ddechrau’r wythnos ganlynol, roedd digon o ddeunydd i lenwi rhyw 27 tudalen. A oedd yn bosib peidio a chynnwys llond tair tudalen er mwyn cael rhifyn 24 tudalen? Ddim cweit. Ond roedd toreth o stwff hwyr yn cyrraedd – a ddylai fod wedi cyrraedd ers dechrau’r wythnos. A phenderfynwyd ei gynnwys er mwyn cadw at y rhifyn traddodiadol o 32 tudalen. Oherwydd hynny roedd hi’n funud olaf ar yr “Eco” yn cael ei baratoi, ac o ganlyniad i’r holl ail-wampio; y newidiadau i leoliad tudalennau, newidiadau i dudalennau lliw a newidiadau o fewn tudalennau, cafodd newyddion Cwm y Glo eu gadael allan. Ymddiheuriadau i ohebwyr a thrigolion y pentref hwnnw.

Mae deunydd hwyr wedi bod yn cyrraedd ers rhai misoedd, ac yn rhoi cur pen i’r golygydd, ond yn enwedig i’r gosodwr. Mae’n hwyr ar y nos Sul arnom yn aml yn rhoi’r papur yn ei wely. Felly, o’r mis hwn ymlaen, bydd yn rhaid cadw at y dyddiad cau. Ni fydd deunydd hwyr yn cael ei gynnwys. Mae’r dyddiad ar gyfer anfon deunydd i’r “Eco” yn glir ym mhob rhifyn. Gwnewch gofnod o’r dyddiad yn eich dyddiadur/ar eich calendr, ond yn bwysicach na hynny, cadwch ato!

Ar nodyn mwy cadarnhaol, cofiwch am noson lansio safle’r “Eco” ar y we, er fod y noson wedi ei gohirio am fis, a hynny am resymau technegol y tu hwnt i grebwyll y golygydd. Ond bydd croeso i bawb droi i mewn i Neuadd Bethel ar nos Fercher, 15fed o Hydref i weld y datblygiadau diweddaraf yn hanes y papur bro. O’r dyddiad hwnnw ymlaen bydd holl ol-rifynnau’r papur i’w cael am ddim ar y we – bron i ddeugain mlynedd o hanes y fro. Bydd y lluniau a ymddangosodd yn yr “Eco” hefyd ar gael, gan gynnwys rhai na chawsant eu dewis ar gyfer y papur. Gwledd i’w mwynhau fel y daw nosweithiau tywyll y gaeaf ar ein gwarthaf.

YNEISIAU: TREFNYDD HYSBYSEBION I’R “ECO”

Mae Eifion Roberts, Trefnydd Hysbysebion presennol yr “Eco” yn dymuno rhoi’r gorau i’r swydd, ond yn fodlon parhau gyda’r gwaith hyd rifyn Nadolig/Ionawr. Y gobaith yw y daw rhywun i wirfoddoli cyn hynny fel y gall ef/hi gael profiad o’r gwaith gydag Eifion dros y misoedd nesaf.

Am fwy o fanylion, cysylltwch efo Eifion (01286 870740)neu Goronwy Hughes (01286 674839).

GOHIRIO NOSON LANSIO

GWEFAN YR ‘ECO’

Neuadd Goffa Bethel

Y dyddiad newydd fydd:

Nos Fercher, 15ed o fis Hydref am 7.00.

Croeso cynnes i holl ddarllenwyr a chefnogwyr yr ‘Eco’, pryd y bydd gwefan newydd “Eco’r Wyddfa” yn cael ei lansio’n swyddogol.

Bydd y wefan yn ‘fyw’ o’r dyddiad hwn, yn cynnwys yr holl ôl-rifynnau, yr oll o’r lluniau a gyhoeddwyd yn yr ‘Eco’, a hefyd archif o hen luniau eraill o’r fro, gan gynnwys ffilmiau fideo o’r gorffennol.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i’ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Yn ystod y mis a aeth heibio ....

..... Cwtogwyd Ras yr Wyddfa am y tro cyntaf erioed yn ei hanes. Roedd storm o fellt ar y copa yn peryglu’r stiwardiaid a’r criw camerau, heb son am y rhedwyr yn y ddwy ras. Ras i Bont Clogwyn felly, ac Andi Jones, ar ei ymweliad olaf mae’n debyg cyn mudo i Qatar, yn methu ennill i goroni ei yrfa. Eidalwr ifanc hawliodd ei goron. Pob clod i’r trefnwyr a’r llu gwirfoddolwyr a wnaeth yr achlysur yn llwyddiant unwaith eto eleni. Ond naw wfft i bwy bynnag benderfynodd roi clo ar y toiledau cyhoeddus yn y pentref am hanner dydd ddiwrnod y ras.

... .. Beiciodd aelodau Gafael Llaw o amgylch Cymru ac ymweld â phob ysbyty plant, gan gynnwys taith dros y ffin i Alder Hey yn Lerpwl. Y nôd oedd codi £50,000 tuag at elusen cancr plant a Ward Dewi yn Ysbyty Gwynedd. Fel roedd yr “Eco” yn mynd i’r wasg, da deall fod mwyn sylweddol na’r swm hwnnw wedi ei gasglu. Roedd nifer o unigolion o fro’r “Eco” yn rhan o’r tim.

... .. Daeth swp go dda o wobrau i’r fro o’r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, a’r mwyafrif ohonynt yn adlewyrchu traddodiad cerddorol cyfoethog yr ardal. Ac i’r rhai sy’n poeni am y dyfodol, braf cael adrodd mai ieuencid y fro gipiodd yr holl wobrau bron (gydag ymddiheuriadau i ambell ‘hynafgwr’ ym Mand Deiniolen!). Enillodd Dafydd Guto, Glasgoed, Penisarwaun ar ryddiaith creadigol yn yr Adran Llenyddiaeth, a daeth Magi Tudur, eto o Benisarwaun, yn ail ar y gystadleuaeth monolog rhwng 12 ac 16 oed. Cerddorol oedd yr holl wobrau eraill. Band Deiniolen yn drydydd yn Adran Gyntaf y bandiau pres a Leisa Gwenllian, Llanrug yn ail ar y gan werin rhwng 12 ac 16 oed. Pwy feddyliai y byddai’r ddau ar y brig yn yr unawd pres dan 16 oed yn byw o fewn cwta filltir i’w gilydd? Tomos Llewelyn Herd o Benisarwaun yn fuddugol, a Gethin Wyn Jones o Bontrhythallt yn ail. Seren yr wythnos yn ddi-os oedd Math Roberts o Gwm y Glo, ddaeth yn fuddugol mewn tair cystadleuaeth, gan ennill Tlws Coffa John Weston Thomas ar yr unawd telyn deires, y ddeuawd piano (gyda Gwenno Morgan, Caernarfon), a’r unawd telyn. Heb anghofio ei fam hefyd am arwain Cor Dre i lwyddiant mewn cystadleuthau corawl. Yn ystod yr wythnos urddwyd Haf Thomas, Llanrug a Duncan Brown, Waunfawr yn aelodau o’r orsedd. Llongyfarchiadau’r “Eco” i bob un ohonoch.

... .. Cynhaliwyd gwasanaethau a chyfarfodydd cofio cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf led-led y wlad: y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel. A thra bod rhai o’r cyfarfodydd yn tueddu i fod yn fwy o ddathliadau militaraid nac o gofio, doedd hi’n fawr o syndod clywed arweinydd Llywodraeth Cymru a Phrif Weinidog Prydain yn ymfalchio fod cwmnïau o Gymru a Phrydain yn rhoi hwb sylweddol i’r economi drwy werthu arfau a nwyddau cynhyrchu arfau i’r Dwyrain Canol. Ganrif wedi’r heldrin waethaf yn hanes dynoliaeth mae’r awch am waed yn parhau.

... .. Arweiniodd sylwadau’r dirprwy grwner at ddadl rhwng Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Mynydd Prydain. Roedd bachgen ifanc wedi disgyn i’w farwolaeth ar yr Wyddfa oherwydd iddo ddilyn ‘llwybr ffug’, sef llwybr nad oedd yn arwain i unman diogel. Dywedodd y crwner fod gan y Parc ddyletswydd i ddileu’r llwybrau ffug hyn oddi ar gopa’r mynydd. Mae Elfyn Jones o Frynrefail yn swyddog mynediad a chadwraeth dros Gymru i’r Cyngor Mynydd Prydeinig, ac y mae’n anghydweld a cheisio ‘diogelu’ y copa. Mae’n dadlau mai addysgu yw’r modd o gadw ymwelwyr yn ddiogel, yn hytrach na rhoi’r argraff fod cerdded i’r copa yr un mor hawdd ( a diogel) a mynd am dro ar lwybr llawr gwlad wedi ei gyfeirio.

Beth am awgrymu slogan addas i blesio’r ddau gorff: “Paratoi pobl i’r mynydd, nid paratoi’r mynydd i’r bobl.”

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau

Gwaith MOT

Mecanic profiadol iawn

Prisiau cystadleuol

Llanrug

01286 677362

07979620996



## Agoriad Gardd Cae Heti.

Gardd Meddygfa Llanberis yw'r Goedwig GIG gyntaf yng Nghymru, a dyma luniau rhai o'r digwyddiadau yn yr agoriad swyddogol. (Cafwyd adroddiad am yr ardd yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco').

Gyda diolch i Eric Baylis am yr holl luniau o Lanberis.



## Taith Gerdded Côr Bytholwyrdd.

Mae'r côr wedi casglu £600 wrth gymryd rhan mewn taith gerdded ar Lôn Las Peris. Mae'r arian wedi ei drosglwyddo i gronfa "Ffrindiau Plas Pengwaith" i helpu ariannu teithiau allan i'r preswylwyr.





# Parhad LLANBERIS

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillwyr y Bêl Bonws am fis Mehefin oedd Mrs Diane Jones, Hendyglas, ac am fis Gorffennaf Mrs. Mair Jones, Maes Padarn.

**Gwerthfawrogiad** Dymuna teulu'r Ddiweddar Ann Wilson Evans (Nan Nan) ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar achlysur trist ei marwolaeth ar y 27ain o Fehefin.

**Diolch** Dymuna Mrs Myfanwy Davies, Snowdon Street, Llanberis ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a gofal a ddangoswyd tra y buodd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i'r Meddygon a gweinyddesau yn Wardiau Gogarth, Aran, Hebog a Dulas. Diolch i bawb o'r Feddygfa Llanberis. Diolch i Mair, Sioned a Karen. Diolch yn fawr iawn i chwi oll.

**Llongyfarchiadau** i Mrs Megan Owen, 59 Maes Padarn, ar ei phen-blwydd yn 96 oed ar Awst y 18fed. Diolch i bawb am y cardiau a'r cyfarchion.


**Adref o'r Ysbyty** Da gennym glywed fod Stella (Owen gynt), merch y diweddar Mr a Mrs Jonah Owen, allan o'r ysbyty ac wedi dychwelyd i'w chartref yng Nghastell Nedd.

**Diolch** Mae Nia, Eifion a Gwyneth, Swn Y Gwynt, Ffordd Padarn yn diolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a gawsant yn dilyn marwolaeth syfrdanol o sydyn Eric Gachon, yn 44 oed, gwr arbennig Nia a thad cariadus Matheo, Manon a Morgane. Mae'r teulu wedi penderfynu aros yn Nantes, Ffrainc.


**Margaret Ann Griffiths** Dymuna Christine, Geurwen, Terence, Andrew a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, trwy gardiau/ galwadau/ blodau a rhoddion tuag at Marie Curie ac Eglwys Sant Padarn, a dderbyniasant yn dilyn marwolaeth mam annwyl. Diolch arbennig i Marlene a Megan am eu caredigrwydd, hefyd i'r Parch Dr Carol Roberts am ei geiriau caredig yn yr Eglwys ac i Dr William Munro am ei wasanaeth wrth yr organ. Diolch hefyd am y gofal a dderbyniodd mam gan Feddygfa Llanberis a chan Marie Curie Paliative Care (Hospis yn y Cartref). Diolch i bawb.

**MODURDY'R WYDDFA**  
**Snowdon Garage**  
LLANBERIS  
**M.O.T**  
**GWASANAETH**  
**CYNNAL A CHADW**  
**(01286) 870225**





**FFRAMIA**  
Parc Padarn Llanberis  
(01286) 870922  
**Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU**  
DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN  
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy  
[www.fframia.com](http://www.fframia.com)



**E. W. Pritchard**  
*Trefnwyr Angladdau*  
CENTRAL GARAGE  
LLANBERIS  
FFON- (01286) 870202

## Cist Gwynedd yn cefnogi prosiectau cymunedol ar draws y sir

Unwaith eto eleni mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cefnogaeth i brosiectau cymunedol ar draws y sir drwy grantiau amrywiol gan Gist Gwynedd.

Mae sawl grant ar gael drwy Gist Gwynedd, gyda'r brif nod o gefnogi cynlluniau a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yn y sir.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 mae Panel Cist Gwynedd wedi dyrannu dros £81,000 i 11 prosiect cymunedol yng Ngwynedd, gan gynnwys:

- Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwryfai a Llyfni £3,562.50
- Amgueddfa Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig £2,801
- Theatr Genedlaethol Cymru £3,000
- Pwyllgor Canolfan Gymunedol a Cae Chwarae Garndolbenmaen £15,000
- Cae Chwarae Rhosgadfan £13,000
- Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli £4,680
- Neuadd Bentref Llanelltyd £4,999
- Y Ganolfan Gymdeithasol Blaenau Ffestiniog £7,480
- Gwallgofiaid, Blaenau Ffestiniog £10,000
- Neuadd Bentref Dinas Mawddwy £9,539.40
- Antur Stiniog £7,595.58

Yn ddiweddar, bu Panel Cist Gwynedd yn ymweld â phrosiectau sydd eisoes wedi derbyn cymorth ariannol yn y blynyddoedd diwethaf gan gychwyn yn Neuadd Pendre, Tywyn a dderbyniodd cyfanswm o £20,000 i gwblhau gwelliannau gan Gronfa Datblygu Gwirfoddol a Chronfa Fuddsoddi Cymunedol.

Bu'r Panel hefyd yn ymweld â chynllun maes chwarae newydd ym Mharc Coffa Abermaw a dderbyniodd £20,000 yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14 i osod cyrtiau tennis newydd sbon gyda gwair artiffisial yn ogystal â chwrt pêl-fasedg/pêl-droed.

Yn olaf, bu'r panel yn ymweld â Gwesty Seren ger Llan Ffestiniog sydd yn croesawu gwesteion gydag anableddau a'u teuluoedd. Cwmni SEREN Cyf sy'n rhedeg y gwesty a rhoddwyd £10,000 iddynt gan y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol i uwchraddio'r adeilad.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd ac aelod o banel Cist Gwynedd:

'Mi wnaeth ymweld â'r rhai o'r prosiectau ar lawr gwlad sydd wedi derbyn arian gan Gist Gwynedd helaethu ein dealltwriaeth o'r budd mae'r arian cyhoeddus yma'n ei gael mewn cymunedau ar draws Gwynedd. Roedd hi'n wych cael cyfarfod a'r bobl sydd wedi rhoi'r arian hwn ar waith dros eu hachos.

'Mae pob cais am grant yn cael eu hasesu'n drylwyr ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sydd yn cwblhau'r gwaith hwn i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn derbyn y budd mwyaf o'r arian cyhoeddus maent yn ei dderbyn er mwyn cymunedau'r sir.'

Mae arian grant dal ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Bydd rhaid cyflwyno cais am grant cyn diwedd Medi 2014.

Am fwy o wybodaeth am wneud cais am grant e-bostiwch CistGwynedd@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01286 672626.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD  
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter  
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER  
CALENLEK

Menter  
Môn

CYNGOR GWYNEDD  
CONGREG

ERDF

Ynnwedd Cymru  
Welsh Government

Europe & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol  
Creative Europe  
Europe & Wales: Investing in your future  
European Regional Development Fund

## TEITHIAU CERDDED MIS MEDI

SUL 7 MEDI 2.00yp

PENTREF COLL CWM BRWYNNOG, UWCHBEN  
LLANBERIS (4 milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN CERDDED A  
DARGANFOD MENTER FACHWEN, STRYD  
FAWR, LLANBERIS

ANODD A BRYNIOG. DEWCH A SGIDIE  
CERDDED.

MAWRTH 9 MEDI 2.00yp

SEGONTIWM A'R RHUFEINIAID YNG  
NGHAERNARFON (1 milltir)

CYCHWYN: AMGUEDDFA SEGONTIWM  
GYDA CYDWEITHREDIAD CADW  
HAWDD.

IAU 18 MEDI 2.00yp

LLANRUG: MWNT A BEILI PANT IFAN, TAN Y  
COED A BRYN BRAS. (4 milltir)

CYCHWYN: PARC GLANMOELYN, LLANRUG  
CYMHEDROL. LLWYBRAU CYHOEDDUS.  
ANGEN SGIDIE CERDDED.

SUL 21 MEDI 2.00yp

FFYNNON CEGIN ARTHUR (2½ milltir)

CYCHWYN: YSGOL PENISARWAUN  
CYMHEDROL. LLWYBRAU CYHOEDDUS.  
ANGEN SGIDIE CERDDED.

GWENER 26 MEDI 2.00yh

101 O BETHAU NI WYDDOCH AM STRYD FAWR  
BANGOR (2 milltir)

CYCHWYN: MAES PARCIO PWLL NOFIO  
BANGOR  
HAWDD IAWN.

## CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN, TY CAXTON, STRYD FAWR LLANBERIS

TROEDIO LLWYBRAU  
**LLANBERIS  
NANT PERIS**

LLANBERIS FOOTPATHS

HANESION O'R ARDAL O'R LLOSFYNYDDOEDD  
I'R AIL RHYFEL BYD

TALES FROM THE VOLCANIC AGE  
TO THE SECOND WORLD WAR

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD  
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter  
fachwen**

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER  
CALENLEK

Menter  
Môn

CYNGOR GWYNEDD  
CONGREG

ERDF

Ynnwedd Cymru  
Welsh Government

Europe & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol  
Creative Europe  
Europe & Wales: Investing in your future  
European Regional Development Fund

Bydd y ganolfan yn agor yn fuan iawn a bydd manylion yn yr Eco maes o law. Yno bydd holl fapiau cerdded hanes ac archaeoleg, bywyd gwyllt a daeareg y fro (a tu hwnt) ar gael yn ogystal a gwybodaeth am holl weithgareddau'r cynllun. Mae Menter Fachwen wedi bod yn cyd-weithio i gael deunydd y Parc Genedlaethol, Gwasg Carreg Gwalch, CADW. Cwmni Celticos a sawl un arall yno hefyd. Bydd ystafell cymunedol yno hefyd lle cynhelir sgysiau, cyrsiau ffotograffiaeth a chelf, arddangosfeydd hen luniau ac ati ac hefyd lle bydd modd cynnal sesiynau i'r ysgolion neu ar gyfer cymdeithasau a grwpiau cymunedol. Mae Menter Fachwen yn brysur paratoi gweddill yr adeilad fel siop ar gyfer eu cynnyrch o'r sawl mentrau cymdeithasol y maent yn rhedeg, fel y gweithdy gwaith coed a'r garddwriaeth, a llawer mwy.

## Apêl

Bydd llyfrgell gyfeiriadol yn y siop/ganolfan yn llawn llyfrau ac ati am hanes, archaeoleg, bywyd gwyllt a daereg lleol. Os oes gennych unrhyw lyfrau hoffwch gyfrannu i'r achos yna cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 872014.

## SIOE HEN LUNIAU BRO'R ECO

Yn dilyn llwyddiant ysgybol y nosweithiau arddangos hen luniau bro'r Eco mae sawl un wedi gofyn I ni cynnal y fath achlysur ar y prynhawniau. Byddwn yn trefnu prynhawn ar ddechrau Mis Hydref. Bydd manylion yn rhifyn nesaf yr Eco.

**Gwesty Dolbadarn**  
Llanberis

**Ffôn-(01286)-870277**

**J. M. JONES**  
a'i FEIBION  
**LLANRUG**  
*Gwaith Coffaol*

**Ffôn Gwaith**  
01286 672898

**Cartref**  
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



## Pontydd Newydd.



Bron i ddwy flynedd wedi i'r llifogydd gwaethaf o fewn cof unrhyw un o'r fro, mae dwy o'r pontydd a chwalwyd yn yfflon wedi eu hail-adeiladu. Dangoswyd y difrod yn yr "Eco" ddwy flynedd yn ôl, a chafwyd lluniau hefyd o'r gwaith atgyweirio yn mynd rhagddo. Bellach, dyma ddangos y ddwy bont ar eu newydd wedd.

Mae'r Cynghorydd Elfed Williams, Deiniolen yn uchel ei glod o'r gwaith ardderchog a wnaethpwyd ar Bont y Felin,



Clwt y Bont. "Mae'r gwaith cerrig ynddo'i hun yn werth ei weld," meddai, "a rhaid brolio Cyngor Gwynedd am y gwaith graenus."

Mae Pont Maenllwyd hefyd wedi ei thrwsio, ac yn rhoi mynediad i gerddwyr a marchogwyr ceffylau o Gwm Tŷ Du ar draws afon Goch i gyfeiriad Cwm Dwythwch a Maesgwm.

### Cymunedau Crefftus yn helpu crefftwyr Gwynedd i ddatblygu busnesau

Mae Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd am gynnal cwrs hyfforddi i grefftwyr o Wynedd am sut i greu a gwerthu cynnyrch crefft o'u cartref.

Bydd y cwrs - Cymunedau Crefftus - yn rhoi arweiniad ac anogaeth i oedolion o'r sir sydd yn awyddus i ddysgu mwy am ddatblygu eu sgiliau cynhyrchu crefftau yn fusnes o'u cartref.

Dywedodd Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd, Gwawr Wyn Roberts:

"Efallai bod gennych brofiad blaenorol o gelf a chynhyrchu crefftau, neu eich bod yn hollol newydd i'r maes a'ch bod yn edrych i ddysgu sgiliau a thechnegau newydd? Mae'r cwrs hwn yn addas i oedolion o bob oed, cefndir a gallu."

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan Rebecca Hardy-Griffith a Morgan Griffith o gwmni Dyfal Donc ([www.DyfalDonc.com](http://www.DyfalDonc.com)) sydd yn gynhyrchwyr profiadol a hyfforddwyr brwdfrydig. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal dros gyfres o 10 sesiwn hyfforddi am foreau Mawrth ac Iau rhwng 14 Hydref 2014 a 13 Tachwedd 2014 yn ardal Caernarfon. Yn ogystal bydd cyfle i'r rhai sydd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant werthu eu cynnyrch o stondin Cymunedau Crefftus yn Ffair Grefftau Nadolig Glynllifon ar 22 a 23 Tachwedd 2014.

Cost y cwrs yw £20 am 10 sesiwn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwawr Wyn Roberts drwy e-bostio [GwawrR@gwynedd.gov.uk](mailto:GwawrR@gwynedd.gov.uk) neu ffoniwch 01286 679721.

Mae mwy o fanylion, a ffurflen gofrestru am y cwrs hefyd i'w gweld ar y [www.gwyneddreadigol.com](http://www.gwyneddreadigol.com).

### GERALLT

I'r cyfoes, tyst yr oesoedd, – yno o raid  
safai'n rheng gwerinoedd.  
I'w Lyw mewn cyfyng-leoedd  
o'r deunaw, naw, yr un oedd.

*Richard Ll Jones.*

### Dalier Sylw: I bwy bynnag y bo'n berthnasol.

Dymuna Dorothy Carter (Pleming gynt) gyhoeddi ei bod, yn groes i'r straeon fu'n lledaenu drwy'r ardal ers rhai wythnosau bellach, yn dal ar dir y byw! Mae'n diolch am bryder ei holl gyfeillion, ac yn gofyn ichwi ddal i yrru'r blodau.



Diolch am Gefnogaeth ein  
Cwsmeriaid yn Eryri  
dros 25 Mlynedd

[gareth.w.jones@hotmail.co.uk](mailto:gareth.w.jones@hotmail.co.uk)  
[www.ceircymru.com](http://www.ceircymru.com)

**Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN**  
**01248-671770/670451**



**SYMUD  
A CHADW**

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)  
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH  
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

**01248 430126 • 07786176866**  
[thomasmeredydd@btinternet.com](mailto:thomasmeredydd@btinternet.com)

**Bore Coffi** Bydd Cymuned Caeathro yn gweithio mewn partneriaeth gyda Age Cymru Gwynedd a Môn i gynnal bore goffi yng Nghanolfan y Capel rhwng 8 a 12 bore dydd Sadwrn, 23ain o Awst.

Bydd cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu gyda gweithgareddau i bob oed megis posau a gemau bwrdd.

Mynediad am DDIM ac edrychwch ymlaen am gyhoeddiad pellach ynglyn â'r gweithgaredd yma dros y gaeaf.

**Miri Medi** Dewch draw am ddiwrnod o hwyl ar ddydd Sadwrn, 13eg o Fedi, i Gae Chwarae Canol pentref Caeathro o 15:00 ymlaen ble bydd llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal megis stondinau, rasys, gemau, gweithgareddau a llawer mwy.

Mae'r gystadleuaeth boblogaidd 'Bake Off' yn ôl eto eleni a bydd yn cael ei feirniadu yn seiliedig ar gyflwyniad a blas ar y diwrnod. Felly pobi amdani.

Mae cystadleuaeth newydd eleni yn agored i bob oedran, sydd yn caniatáu i chi fod yn greadigol: gwneud anifail o lysiau/ ffrwythau a fydd hefyd yn cael eu beirniadu ar y diwrnod.

Prynhawn llawn hwyl i'r holl deulu, ac os nad yw hyn yn ddigon bydd noson gymdeithasol i ddilyn yn Cefn y Gof, am ddim. Cyfle i bawb ddod â diod o'u dewis gydag hwy, a chael sgwrs a mwynhau 'hog roast' am ddim gyda 'bucking bronco' yn adloniant.

Os hoffech fwy o wybodaeth am y digwyddiad cysylltwch gydag Hannah ar 07816316236 neu dilynwch ni ar Facebook – cymdeithascaechwaraecaeathro.

### Gwasanaethau y Capel

Dydd Sul, Medi 7ed, am 2 o'r gloch: Y Parch Marcus Robinson (gweinyddir y Cymun)

Dydd Sul Medi 21ain, am 10 y bore: Dr Tudor Ellis.

Huw Ceiriog fydd Llywydd y mis ac yn gofalu am ddyddiadur gweithgareddau y Ganolfan yn ystod mis Medi.

**Cyfarfod Blynnyddol** Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol 2014 Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn y Ganolfan am 8.30 nos Lun, Medi 15ed. Mae croeso i drigolion Caeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau fod yn bresennol ac i gynnig awgrymiadau ar y gweithgareddau. Cyhoeddir rhybudd swyddogol o'r cyfarfod erbyn Medi 1 gyda agenda llawn yn cynnwys adroddiadau y Cadeirydd a'r Trysorydd, newidiadau i'r Cyfansoddiad, trafodaeth ynglyn â'r gweithgareddau, ethol swyddogion ac aelodau ar y Pwyllgor.

**Llongyfarchiadau** Dymuniadau gorau i Aled (Lodge) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Mae Aled eisiau diolch am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar ei ben-blwydd arbennig. Diolch yn fawr i chi i gyd.

**Cerddwn Ymlaen** Llongyfarchiadau i Dr Gareth Parry Jones, Bryn Eglwys, ar y gamp o gerdded am chwe niwrnod gyda Rhys Meirion a Gerallt Pennant er budd Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'n dipyn o gamp cerdded am un diwrnod heb sôn am chwech!!

Ar yr un pryd anfonwn gydymdeimlad cywir i deulu Bryn Eglwys wedi eu profedigaeth o golli mam Dr Gareth yn ddiweddar.

**Profedigaeth** Anfonwn gydymdeimlad i Mrs Elma Williams, 2 Hen Gapel, sydd wedi colli ei mab, Andrew, yn 48 mlwydd oed.

**Gwellhad** Dymunwn yn dda i Mrs Nansi Jones, Tremallt, sydd wedi bod yn yr ysbyty ac sydd rwan adre yn gwella. Brysiwch fendio!

**Tynfa Misol** Dyma ganlyniadau y dynfa am fis Gorffennaf a mis Awst.

Gorffennaf: £40 (81) Sharon Hughes, 11 Rhes Glangwna; £25 (42) Pepi Everitt, 21 Rhes Glangwna; £15 (64) Alun Roberts, Monfa; £5 (48) William Ellis, Cefn Gwern.

Awst: £40 (106) Mirain Owen a T. Walker, Brynhyfryd; £25 (7) Margaret Hemsworth, The Barn; £15 (12) Zonia Bowen, Cefn Coed, Stad Glandwr; £5 (78) Nan Huws Roberts, 10 Erw Wen.



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076  
*neu*  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
williamshy@parliament.uk

## Prosiect Pasport Llwybr Pererin Gogledd Cymru

Yn dilyn y Seintiau Celtaidd cynnar mae pererinion ers canrifoedd wedi cerdded llwybrau gogledd Cymru tuag at ynys sanctaidd Enlli. Mae'n anodd gwybod lle yn union oedd y llwybrau gwreiddiol ond heddiw gellid teithio ar Lwybr Pererin Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Llwybr hirbell yw hwn yn rhedeg ar draws gogledd Cymru o Abaty Dinas Basing ger Treffynnon i Aberdaron gan basio trwy rai o'r golygfeydd harddaf yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae arddangosfa yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon hyd 31 Awst 2014 yn arddangos printiau gan ddisgylbion o ysgolion cynradd ar hyd rhan Conwy a Gwynedd o'r Llwybr Pererin hwn. Gwaith a grëwyd dan arweiniad Eleri Jones, arlunydd preswyl Prosiect Pasport Llwybr Pererin yw'r lluniau.

Mae pob llun a gaiff ei arddangos yn cynrychioli nodwedd o'r gwahanol gymunedau boed yn dirwedd, yn fywyd gwyllt neu'n adeilad megis yr eglwys leol. Bydd un o'r rhain yn cael ei ddewis i gynrychioli pob un o'r cymunedau hyn, a bydd y llun yn cael ei droi'n stamp printio bychan. Bydd y stampiau hyn yn cael eu stampio ar gerdyn pasport cerddwr i bobl sy'n teithio ar hyd y Llwybr Pererin ac yn gofnod o gwblhau pob cam o'r llwybr.

Yn yr arddangosfa gwelir hefyd ddetholiad bychan o hen brintiau, o gasgliad Gwasanaeth Archifau Gwynedd, o rai o'r eglwysi a fyddai yn gyrchfannau pwysig i'r pererinion ar eu taith.

Mae Oriel Pendeitsh ar agor yn ddyddiol o 9.30am hyd 4.30pm.



**Alun Ffred Jones**  
Aelod Cynulliad  
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076  
*neu*  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
alunffred.jones@cymru.gov.uk



## Cylch Ti a Fi Penisarwaun



Cafodd pawb amser bendigedig yn y parti diwedd tymor dydd Iau, Gorffennaf 17eg. Roedd cyfle i gael paentio wynebâu a chwarae ar y castell bownsio "Pepa". Roedd 'na ddigonedd o fwyd wedi ei baratoi i bawb. Pawb wedi mwynhau, o'r babis ieuengaf i'r plantos hynaf a fydd yn dechrau'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi.

Hoffem gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb sydd yn mynychu'r ac yn helpu i gadw'r cylch yn agored yn wythnosol. Diolch o galon i Lou a fu yn arwain y cylch am dros flwyddyn, diolch iddi am ei hymroddiad. Croesawn Rhian fel Cadeirydd / Arweinydd newydd a dymunwn y gorau iddi ar y gwaith yma. Mae Rhian wedi bod o gymorth mawr yn barod trwy wirfoddoli i agor i fyny yn aml.

Bydd y cylch yn ail agor dydd Iau, Medi4ydd, o 1:30 tan 3:00 o'r gloch. Croesawn rieni, Neiniau, Teidiau, Gwarchodwyr gyda'r plant i chwarae, gwneud crefftau, dawnsio canu a chael paned a sgwrs. Bydd diod, bisgedi a raisins i'r plantos am gyfraniad o £1.

### Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun - Pêl Bonws Loteri

Enillydd Mis Mehefin oedd Mr Henry Jones, 25 Bryn Tirion, gyda rhif 42. Llongyfarchiadau!

**Gwellhad** Gobeithio bod Mrs Janet Ash yn gwella ar treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Twm Herd ar dderbyn y wobwr 1af ar yr Unawd Pres dan 16 oed, ac i Magi Tudur, Gwernhelen, 2il ar Monolog 12-16 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar 2014.

### Ysgol Gymuned Penisarwaun

**Mabolgampau** Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol bnawn dydd Iau, Gorffennaf 11eg. Cafwyd tywydd bendigedig gyda phawb yn mwynhau eu hunain yn cymryd rhan. Roedd y plant wedi eu rhannu i 3 gwlad a bu cystadlu brwd ar draws ystod o weithgareddau. Y tim a ddaeth yn fuddugol oedd Cymru. Diolch i bawb a ddaeth draw i gefnogi'r plant, ac i Gil am ei barodrwydd yn trefnu'r sustem sain ar ein

cyfer.

Dymunwn y gorau i Mr Ifan Dafydd Owens sydd wedi bod yma yn gweithio fel Cymhorthydd CA2 am dair blynedd. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd fel Cymhorthydd yn Ysgol Tregarth ym mis Medi, bydd colled fawr ar ei ôl yma ym Mhenisarwaun. Llongyfarchiadau mawr iddo ef a'i bartner Jane ar enedigaeth eu mab bach Moi, roedd pawb wedi gwirioni ei gyfarfod am y tro cyntaf yn yr ysgol ddiwedd y tymor.

**Tripiau Ysgol** Dydd Gwener, Gorffennaf 4ydd, cafodd plant Bl.3-6 ddiwrnod arbennig yn adeiladu rafftau a chanwio yng Nghanolfan Conwy. Pawb wedi mwynhau ac yn socian erbyn diwedd y prynhawn! Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Sw Môr Môn ar Orffennaf 9fed, cafodd pawb amser hwyliog.

**Ysgol Sul Bosra** Bydd yn Ysgol Sul yn aildechrau fore Sul, Medi 7fed, am 10 o'r gloch. Rydym mor falch fod Mr Evie Jones am edrych ar ein holau eto eleni ac, fel cyn-aelodau, aelodau presennol, athrawon a rhieni rydym yn ei



llongyfarch ar dderbyn y Fedal Gee am ei ffyddlondeb i'r ysgol Sul ers dros bedwar ugain mlynedd. Cynhelir y Seremoni Wobrwyo yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele, ddydd Iau, Hydref 2il. Llongyfarchiadau mawr i chi, Mr Jones.

**Pwyllgor Neuadd Tynnwyd** Clwb Cant Medi a'r enillwyr yw Carolyn Roberts a Iago Tomos, Cricieth.

Gobeithir trefnu gweithgareddau i godi arian tuag ar y gost o reoli'r Neuadd Gymuned ac erfynnir arnoch fel rhieni a ffrindiau am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad arferol.

**Eisteddfod Bentref** Nos Wener, Gorffennaf 11eg, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gyda chystadlaethau o safon uchel iawn yn ôl beirniaid yn yr eitemau llwyfan, Celf a Chrefft, Coginio a Llên. Dymunir diolch i'r beirniaid i gyd am eu geiriau caredig ac am eu hanogaeth i'r cystadleuwyr ifanc. Diolchir i Janice Jones am feirniadu'r Coginio, Bethan Richardson am ei chanmoliaeth uchel i'r Celf a Chrefft a sylwadau canmoliaethus Arwel Jones i'r holl gynnyrch Llên – cynradd ac uwch. Diolch i Lois Eifion am ei gwaith yn cyfeilio. Braf oedd cael cwmni hwyliog a ffraeth Mari Gwilym ac Elfed Morris a diolch am eu hanogaeth a'u sylwadau gwerthfawr i'r cystadleuwyr llefaru a chanu.

Difyr oedd gwrandao ar Cenin Eifion, Llywdd y noson, yn olrhain y profiadau a gafodd hi yn yr eisteddfod ar hyd y blynyddoedd – profiadau o fagu hyder a mwynhau cystadlu. Diolchir iddi hefyd am ei rhodd hael i'r Eisteddfod Bentref.

Dymunir llongyfarch y

cystadleuwyr i gyd am gymryd rhan. Llongyferchir Efa Baines, Prif Lenor Cynradd a Nia Heledd George, Prif Lenor Uwch. Bu cystadlu brwd hefyd ar y limrigau a'r llunio brawddeg allan o'r enw Dinas Dinlle. I gloi'r eisteddfod cafwyd datganiad clodwiw gan Barti Llefaru'r Oedolion o 'Cantre'r Gwaelod' ac, ar nodyn soniarus diweddwyd y steddffod gyda Chôr Cymysg yn canu 'Llongau Caernarfon'. Edrychir ymlaen am eisteddfod debyg yn 2015.

**Gwellad** Da deall fod Heulwen, Bryn Eglwys, yn gwella'n dda wedi iddi syrthio a brifo'i gwddf a'i braich yn ddiweddar. Pob dymuniad da am wellhad llwyr i ti, Heulwen.

**Cydymdeimlad** Yn dawel yng nghwmni ei deulu a dan ofal diflino Ward Alaw, bu farw un o fechgyn balch y pentref hwn – Gwynfor (King) o Treflys. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf a'i wraig annwyl Jean, Sioned, Endaf ac Aled a Dion, Siôn, Llion a Sarah a Lauren, Owain a Jac a'r cysylltiadau oll. Rydym yn meddwl am danoch yn eich colled enfawr.

**Llongyfarchiadau Eisteddfodol** Gyda balchder llongyferchir Magi Tudur, Twm Herd a Lois Eifion a Band Deiniolen ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Sir Gâr yn Llanelli. Amser i tithau, Gwenllian Carr, gael seibiant wedi'r llafur caled o sicrhau Eisteddfod hynod o lwyddiannus a safonol dros ben.

**Llongyfarchiadau** i bawb ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Pob dymuniad da i'r rhai ohonoch fydd yn cychwyn ar lefel A, Gradd Prifysgol neu swydd newydd.





## Gobeithlu Caeathro.

Gan Arvon Roberts. Pwllheli y daeth y llun a'r wybodaeth am blant ac athrawon Gobeithlu Caeathro yn 1908. Roedd y plant yn y llun i gyd yn alluog fel adroddwyr a chantorion, oherwydd fod traddodiad cerddorol cryf yn y pentref ers cyfnod William Owen, Prysgol.

Yn nrws y capel mae Ellis Davies a Hugh Owen, trysorydd ac ysgrifennydd y Gobeithlu. Yn nesaf atynt ar y dde, yr arweinydd R. Lloyd Owen, blaenor a chodwr canu yn y capel, a mab William Owen. Y ddau oedolyn arall yn y llun yw Evan Owen a Francis Roberts.

## Gemau'r Glyn.

Dyma aros ar ffiniau bro'r "Eco", a rhoi sylw i gyhoeddiad bychan y deuthum ar ei draws yn ddiweddar yn dyddio o 1909. Yr enw llawn arno yw 'Gemau'r Glyn, sef Tonau, Emynau a Salmau ar gyfer Angladdau yn ardaloedd Pentir, Rhiwlas, Glasinfryn, Caerhun a Minffordd.'

Does gen i ddim syniad pwy oedd y pwyllgor fu'n gyfrifol am y llyfryn, ond rhestrir y prif swyddogion yn y rhagymdrodd. Yn anffodus, dim ond enwau'n unig a geir, heb unrhyw gyfeiriad at ba un o'r ardaloedd uchod roeddent yn perthyn. Dyma'r enwau, rhag ofn fod rhai o'r darllenwyr yn gwybod rhywbeth amdanynt. Llywydd: W.G.Hughes; Is-lywydd: Herbert Jones; Ysgrifenyddion: Robert Pritchard a J.Pryce Jones; Trysorydd: Thomas Williams.

Mae'n ddiddorol darllen yn y rhagymadrodd pam y penderfynwyd cyhoeddi y fath lyfryn. "Teimlid mai oer a difwyd iawn ydyw y canu mewn angladdau, ac nid yw'r safon y dylai fod mewn amgylchiadau o'r fath. Ein cred mai y rheswm o hyn ydyw – bod y geiriau a'r dôn yn ddieithr i'r naill gynulleidfa a'r llall .... A'r cynllun gorau ydyw ddwyn allan lyfr undebol... fel y medr pawb ymuno yn y canu."

Yna daw'r frawddeg hon (sydd bron iawn yn rhybudd i holl drigolion y fro): "Mabwysiedir y llyfr hwn yn y dyfodol yn holl angladdau yr ardal, a disgwylir y bydd copi ohonno yn llaw pob un fydd yn bresennol"! Y gobaith yn amlwg oedd y byddai safon y canu yn gwella yn yr angladdau.

Mae'n amlwg hefyd fod y pwyllgor yn ffyddiog y byddai pawb oedd yn berchen y llyfryn yn medru darllen sol-ffa!

Ond o edrych ar y gwahanol donau, tybed a oes rhai ohonynt yn lleol eu naws? Dim ond y cyfansoddwyr a enwir: does dim enw gyferbyn ag awdur unrhyw un o'r emynau. Dyma rai o'r tonau a allant fod yn lleol. 'Caerhun', sef trefniant o hen alaw gan R.E.Jones, Carfan. Mae ganddo hefyd dôn arall o'r enw 'Tabernacl'. Fe'i cynhwysir 'drwy ganiatad yr awdur', a cheir y dyddiad 1886 ar ei chyfer. Mae tôn arall o'r enw 'Buddugoliaeth' wedi ei chynnwys drwy ganiatad R.O.Jones, Rhiwlas, a Salm-dôn gan Gutyn Mawrth, Bethesda. Pwy oedd y cyfansoddwyr hyn tybed?

Byddai'n ddiddorol gwybod am faint o flynyddoedd y parhaodd y llyfryn mewn defnydd yn yr ardaloedd hyn, a thybed a oedd llyfryn tebyg o fewn rhai o bentrefi bro'r "Eco"?

## Bri a chwymp Plas Pentir, Rhiwlas.

Dros yr wythnosau diwethaf deuthum i ddeall fod hanes Rhiwlas wedi ei ysgrifennu tua 1969 gan y diweddar Gwilym Pritchard, Rhiwlas, a'i fod wedi ymddangos yn yr "Eco" nifer go dda o flynyddoedd yn ôl. Yn y traethawd mae'n son am enwogrwydd Plas Pentir, ond fel y chwalwyd y plas yn ddiweddarach, a defnyddio'r cerrig i adeiladu rhai o dai pentref Rhiwlas.

Cangen o deulu Cochwillan (ac felly o deulu gwreiddiol Castell Penrhyn) oedd perchnogion Plas Pentir. Jeffrey Williams oedd yn byw yno yn 1677. Roedd yn briod efo Margaret, merch Maurice Robbins o Gastellmai. William Williams oedd eu mab hynaf, a phriododd yntau ag Anne, merch Rheithor Llanfechell. Roedd wyth o blant o'r briodas.

Priododd y mab hynaf, William arall, efo Jane, merch Glan yr Afon, a dyna fwy o gysylltiadau gyda'r ardal rhwng Rhos bach, Caeathro a'r Waunfawr. Mae rhai o gofnodion y teulu hwn ar gadw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon.

Priododd Ann, y ferch ieuengaf, efo Jeremiah Green o Ddulyn, ac wyres iddi o'r enw Sydney a fu farw'n ddiblant, a adawodd ei holl eiddo i Jerome Green Jones-Green. Roedd y Jerome hwn yn orwyr i Letitia, chwaer William ac Ann, ac yn byw ym Mhlas Pentir. Roedd iddo yntau bump o frodyr a chwiorydd ar chwâl ym Môn, Llangollen, Lloegr a'r Iwerddon.

Mae'n bosibl mai'r cyfoeth o waddol Sydney gafodd ei wario'n afrad gan Jerome. Mae'n amlwg mai prif ddiddoreb teulu'r Plas erbyn hyn oedd rasio ceffylau – a betio yn sgil hynny! Roeddent hefyd yn cadw cwn hela. Diddorol nodi fod W.J. Gruffydd yn "Hen Atgofion" yn son am Edwart Jones 'Cando'. Roedd Edwart Jones (a adnabyddid ar lafar gwlad fel Ned Cando) wedi ei eni yn nhŷ'r heliwr, Plas Pentir, ac y mae W.J.Gruffydd, ar awdurdod ei nain, yn honni mai 'cando' yw'r gair Cymraeg am kennels cwn hela.

Mae hyn oll yn dyddio'r amser uchod i tua canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg – y cyfnod yn ôl traethawd Gwilym Pritchard pryd yr aeth teulu Plas Pentir yn feth-dalwyr. Ac mae'n ymddangos mai dyledion yn sgil betio ar geffylau fu achos hynny.

Ond er mor afrad y teulu, mae'n ymddangos fod gan drigolion cynnar Rhiwlas gryn feddwl ohonynt. Byddai perllan a gardd y Plas bob amser yn cynhyrchu digon o fwyd i'w rannu i ysgolion lleol, a byddai'r teulu'n garedig i drigolion llai ffodus.

Benthyciwyd arian oddi ar deulu'r Penrhyn, ac oherwydd iddynt fethu ad-dalu'r ddyled, daeth Stad Pentir yn eiddo i'r Penrhyn. Chwalwyd yr hen blas, ac yn ôl y traethawd, defnyddiwyd y cerrig i adeiladu Rhiwenfa a'r Swyddfa Bost yn Rhiwlas. Mae'r enw Lôn Plas yn dal i fodoli heddiw, ac yn arwain o Bentir i gyfeiriad gwaelodion pentref Rhiwlas.



# Cychwyn o'r newydd yn Ysgol Brynrefail.

A ninnau ar drothwy blwyddyn ysgol newydd, dyma edrych yn ol i 1934, a chael rhestr o ddisgyblion y fro a dderbyniwyd i'r ysgol ym mis Medi y flwyddyn honno. Mae'r toriad papur newydd hwn wedi ei gadw yr holl flynyddoedd gan Mrs Rhianwen Griffith, Deiniolen gynt, ond yn byw bellach yn y Drenewydd ym Mhowys. Mae'n cael yr "Eco" yn rheolaidd, a daeth atgofion am ddyddiau ysgol yn ôl iddi o ddarllen y teyrngedau i'r ddiweddar Ellen Wyn Jones, Dinorwig. Roedd Mrs Griffith yn cyd-eistedd a hi yn yr un dosbarth, a gwelir enwau'r ddwy ohonynt ar y rhestr.

Mae'r genhedlaeth oedd yn gorfod eistedd y 'lefn plus' yn heneiddio erbyn hyn, ac ychydig o'r genhedlaeth bresennol sy'n sylweddoli nad oedd pawb yn cael mynediad i Ysgol Brynrefail heb basio arholiad. Roedd y disgyblion aflwyddiannus yn aros ar ôl yn yr ysgolion canol, fel y gelwid hwy bryd hynny, sef ysgolion cynradd heddiw.

Byddai canlyniadau'r 'lefn plus' neu'r 'sgolarship' yn cael eu cyhoeddi yn y wasg leol, gyda'r marciau ar gyfer pob un plentyn. Mae'n amlwg mai 350 oedd y marc uchaf posib: pam hynny, nis gwn. Sylwch hefyd ar yr holl ysgolion ar y rhestr, a nifer ohonynt wedi cau erbyn heddiw. Ac yn ddiddorol, roedd Rhiwlas o fewn dalgylch Ysgol Brynrefail bryd hynny.

Y mis nesaf cawn hanes a llun Ysgol Dolbadarn yn 1894, ac awdur nofel am Nant Peris.

Cysylltwch ynglyn ag unrhyw agwedd o hanes y fro drwy anfon i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon: 01286 673515).

**Pryd i bawb**

**Arlwyo at bob achlysur**  
**Yn unrhyw leoliad**  
**Bwffe Blasus o Safon**

PRIODAS  
CYFARFODYDD  
BEDYDD•PARTI•TE  
ANGLADD  
BASGED PICNIC  
BWYD YN UNIG. NEU  
GWASANAETH LLAWN

**CERID MACKINNON**

**(01286) 673190**  
**Symudol 07774 925502**

**GWYNANT PIERCE**

CYNYRCHION COED  
GATIAU•FFENSUS  
AM BRISIAU  
CYSTADLEUOL

Uned 1  
**Fferm Bryn Afon LLANRUG**

**(01286) 674183**  
**07889899901**

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**  
i sefydlu menter  
i gynnal gweithdai  
i geisio am arian  
i redeg mudiad  
i wirfoddoli

**cysylltwch â**  
**Mantell Gwynedd**



GWYNEDD  
The national groupware development is a registered  
Supporting voluntary and community groups



ERDF  
European Regional Development Fund  
Supporting the development of the Welsh economy  
Europe & Wales Investing in your future  
European Regional Development Fund



WCVA  
Welsh Community Voluntary Association  
Supporting voluntary and community groups

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
ymholiadau@mantellgwynedd.com  
01286 672626 neu 01341 422575  
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru  
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

| LLANBERIS DISTRICT.                         |     |
|---------------------------------------------|-----|
| Olwen Williams, Llanrug Central             | 322 |
| Freda Mathews Jones, Deiniolen Central      | 319 |
| Mary Closs Jones, Dolbadarn Cl.             | 299 |
| Dilys Price Do.                             | 299 |
| Bessie Parry, Deiniolen Central             | 294 |
| Mary Owen Do.                               | 293 |
| Gwyneth Marian Thomas Do.                   | 291 |
| Lena Pierce Owen, Dolbadarn Cl.             | 290 |
| John Morris, Deiniolen Central              | 287 |
| Megan Branwen Jones, Dolbadarn C.           | 278 |
| Trefor Wyn Williams Do.                     | 271 |
| Clifford Pritchard Do.                      | 268 |
| Wilbert Alun Jones Do.                      | 267 |
| Ceiriog Hughes Jones, Deiniolen Central     | 264 |
| Nancy Thomas, Dolbadarn Cl.                 | 264 |
| Nellie Wyn Jones, Dinorwic Cl.              | 263 |
| Nora Hughes, Dolbadarn Cl.                  | 250 |
| Catherine Ordish Parry, Dinorwic Cl.        | 249 |
| Edna Llewelyn Jones, Deiniolen Central      | 248 |
| Wm. John Fellows Do.                        | 247 |
| Lydia Mary Jones, Llanrug Central           | 247 |
| Rt. Leonard Roberts, Dolbadarn Cl.          | 245 |
| Hilda Wyn Davies Do.                        | 245 |
| Morfudd G. Jones, Deiniolen Central         | 244 |
| Hugh Llewelyn Jones, Dolbadarn Cl.          | 242 |
| Frank Lewis Owen Do.                        | 239 |
| Catherine Sarah Wood Do.                    | 238 |
| Gwilym E. Williams, Deiniolen Central       | 235 |
| Evan Emrys Jones Do.                        | 233 |
| Owen Trewern Thomas Do.                     | 233 |
| Mair Elona Jones, Llanrug Central           | 227 |
| Richard A. Jones, Deiniolen Central         | 226 |
| Pierce Jones, Llanrug Central               | 226 |
| Ana Lewis, Llanrug Central                  | 224 |
| John George Dove, Cwmyglo Cl.               | 222 |
| Hugh Ifor Williams Do.                      | 222 |
| Owen Glyn Owen, Llanrug Central             | 213 |
| Rhianwen E. Jones, Deiniolen Central        | 213 |
| Rolant Hughes, Cwmyglo Cl.                  | 212 |
| William Pritchard, Llanrug Central          | 207 |
| Thos. Hugh Williams, Dolbadarn Cl.          | 207 |
| Robert Gordon Ward Do.                      | 200 |
| Thomas John Roberts Do.                     | 198 |
| Kate Olwen Evans, Llanrug Central           | 196 |
| Margarite Foulkes, Penisa'rwaen Cl.         | 196 |
| Laura Davies, Cwmyglo Cl.                   | 194 |
| Robert Ellis Jones, Penisa'rwaen Cl.        | 188 |
| Eluned M. Williams, Llandinorwic N.P.       | 186 |
| Margaret Dawn Lyons Gray, Nant Peris Cl.    | 185 |
| Catherine Thomas, Penisa'rwaen Cl.          | 183 |
| Han Aled Jones, Llanrug Central             | 182 |
| Emlyn Davies, Cwmyglo Cl.                   | 181 |
| John Samuel Thomas, Dolbadarn Cl.           | 178 |
| Catherine E. Williams, Deiniolen Central    | 178 |
| Eric Wyn Humphreys, Dolbadarn Cl.           | 167 |
| Eluned Evans, Llanrug Central               | 162 |
| Enid Williams Parry, Cwmyglo Cl.            | 158 |
| Myfanwy Rhiwen Roberts, Rhiwlas             | 148 |
| Hugh Lewis Williams, Rhiwlas Cl.            | 143 |
| PENYGGROES DISTRICT.                        |     |
| Annie Jones, Talysarn Cl.                   | 301 |
| Meiriona Ll. Jones, Nebo Cl.                | 300 |
| Irene J. E. Jones, Garn Cl.                 | 291 |
| Megan Henderson, Talysarn Cl.               | 290 |
| Tegwel Roberts, Garn Cl.                    | 289 |
| Evan Arthur Pritchard, Nebo Cl.             | 286 |
| Arthur Jones, Talysarn Cl.                  | 285 |
| Joan C. Lloyd-Thomas, Penfforddalen Central | 282 |

June 1934



## Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch

Sgwrs gan

Cai Larsen a Llyr ab Elwyn ar

Y Dull Newydd o Ganfasio a Sefyllfa Bresennol yr Etholaeth'

Nos Fercher, 24ain o Fedi

yn Y sefydliad Coffa Llanrug

am 7.00

### Y Sefydliad Coffa

Enillwyr Clwb cant Mis Mehefin

1..H M Parry, Wenllys

2..Mrs M Parry, Wenllys

3..Mrs M Davies, Bod Dawel

Enillwyr Clwb cant Mis Gorffennaf

1..A Jones, 12 Hafan Elan

2..Eryl Roberts, 3 Brynmoelyn

3..Jane Jones, 4 Disgwylfa

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb cant Mis Gorffennaf

1..Geraint Parry

2..Rolant Wynne

Enillwyr Clwb cant Mis Awst

1. D A Jones, 3 Minffordd

2..Mair Parry, Tir-na-Nog, Brynmoelyn

**Llongyfarchiadau** i Mari Fleming, Cartrefle, Bryn Moelytn, ar ennill Gradd BA gyda Anrhydedd 2.1 mewn Astudiaethau Plentyndod ym Mhrifysgol Bangor.

Diolchiadau Fe ddymunia Elizabeth Fleming, Cartrefle, Bryn Moelyn, ddiolch i bawb am y dymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Hefyd, dymuna Hefina, 8 Rhes Rug, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch o galon.

**Ar Werth** Ffrâm gerdded (Rollator) mewn cyflwr da-£30. Cysylltwch â Gwyneth Evans, 18 Glanmoelyn, 676431.

**Profedigaeth** Cydymdeimlwn yn arw â Mrs Eleanor Williams, Afallon, Ffordd Rhythallt, yn ei phrofedigaeth o golli ei gwr annwyl, Clifford, yn 89 mlwydd oed.

Profedigaeth Yn 70 oed bu farw Priscilla Owen, 18 Bro Rhythallt, gwraig annwyl Richard a mam Paul, Alison, Debra, Julie a Richard. Bydd colled fawr iddynt ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyr at y teulu.

**Hafan Elan** Mae Mrs Naomi Griffiths, 11 Hafan Elan, wedi symud ac yn awr wedi ymgartrefu yng Nghartref Marbryn, Caernarfon. Pob dymuniad da iddi gan obeithio y bydd yn hapus yno.

### Babis Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd ac Anwen Owen, Bryn Moelyn, ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Moi, i Ifan a Jane. Mae hen nain, sef Jennie Owen, Hafan Elan, yn hen law ar fod yn hen nain bellach!

Anfonwn ein llongyfarchion i Gareth a Carol, Cae Poeth, ar ddod yn daid a Nain i Greta – merch fach a anwyd i Emma ac Aled. Ac hefyd i hen Daid a

Nain Tecwyn a Margaaret, Cae Rhos. Pob dymuniad da.

Pob dymuniad da i Cemlyn a Gwenan, Ffordd Glanffynnon, ar enedigaeth Ynyr Morus, brawd bach i Elliw a Lleucu. Llongyfarchiadau i Taid a Nain Doug ac Avril, Minffordd ac i Geraint ac Ann Elis, Bethel.

Llongyfarchiadau i Now ac Ann Griffiths, Hawddamor ar ddod yn nain a taid. Ganwd merch fach, Ena Glwys, i Iwan a Rachel, Gwynfa.

**Damwain** Rydym yn falch o ddeall fod Mrs Ceridwen Jones, Eryri, yn gwella yn dda ar ôl ei chodwm diweddar.

**Profedigaeth** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Jean, Sioned, Sion a Llion a'r teulu yn eu profedigaeth. Maent wedi colli gwr, tad a thaid annwyl iawn iddynt, sef Owain Gwynfor Roberts, Treflys, Penisarwaun. Mae Jean yn enedigol o Lanrug a Sioned a'r teulu yn byw yng Nglanffynnon.

**Eisteddfod Genedlaethol** Llongyfarchiadau mawr i blant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn Llanelli

ac i'r band am eu perfformiad hwythau ar y Sul cyntaf.

Capel y Rhos

**Bedydd** Ar 20fed Orffennaf, braf oedd cael croesawu nifer o deulu a ffrindiau i'r oedfa fedydd. Gyda'r gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Efa, Cynan ac Edi Sion, Ty'n y Buarth. Dymunwn bob bendith ar y teulu bach.

**Priodas** Dydd Iau, Gorffennaf 31ain, gyda'r Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, priodwyd Lowri Prys Roberts Williams, Godre'r Coed, Brynrefail â Mr Huw Fôn Roberts, Ynys Môn. Yr organydd oedd Mr Gwilym Lewis. Dymunwn y gorau a phob bendith i'r ddau ohonynt.

**Merched y Wawr** Nos Fawrth, Medi 9fed, am 7.30 yh yn y Sefydliad Coffa gwestai cyntaf y tymor fydd Ffank Green yn dangos a sôn am ei luniau yn ei stiwdio yn Albert Dock, Lerpwl.

Croeso cynnes i aelodau newydd ac yn arbennig i ddysgwyr. Mae rhaglen ddifyr ac amrywiol wedi'i threfnu.

### Oedfaon Mehefin

7: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson

14: Ms Karen Owen

21: Y Gweinidog

28: Miss Llinos Morris.

## Priodas Ruddem



Llongyfarchiadau i Mam a Dad, Dora ac Elfed, Tan-Y-Coed ar ddathlu pen-blwydd priodas. Dynuniadau gorau gan Mark, Sara, Harry, Jack a Wayne.



### Ysgol Llanrug

Anfonwyd y llun yma gan Mrs N. Cullen, 50 Bro Rhyddallt. Yn y llun mae'r diweddar Edward Elias, athro Dosbarth.

Cefn: David, Nigel, Garry, Gareth, Brian, Terry, Kevin, Stuart

Canol: Ken, Steven, Jacqueline, Bethan, Gwawr, Carol, Sharon, John

Blaen: Wendy, Gabriel, Vanessa, Wendy, Sharon, Angela, Manon, Nia.





Band Llanrug ym Mhencampwriaeth y Byd (ond nid i fandiau pres!)

Aelodau o Fand Llanrug a gafodd wahoddiad i ddiddori cystadleuwyr a chefnogwyr Pencampwriaeth y Byd yng Ngwyl Hwyllo Ryngwladol ‘Topper’ ym Mhwlheli yn ystod mis Awst

Capel Y Rhos



Cyflwyno Delyth Gibbard ar ei hymddeoliad fel athrawes Ysgol Sul.

Taith beics Ysgol Llanrug



Cystadleuaeth - EFE



Haf o'r Llan.

Ar ddydd Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, urddwyd Haf Thomas, Buarthau, Llanrug am ei gwaith clodwiw yn casglu rhai miloedd o bunnau dros y blynnyddoedd tuag at amrywiol elusennau cenedlaethol a lleol. Dywedodd Haf iddi gael “diwrnod bythgofiadwy”, ac yr oedd cael cymaint o drigolion Llanrug a Deiniolen yn bresennol i’w chefnogi ac i wyllo’r seremoni yn hufen ar y cyfan. Dewisodd Haf yr enw Haf o’r Llan fel enw gorseddol, a hynny oherwydd iddi gael ei geni yn Llanaelhaearn ac iddi fyw y rhan helaethaf o’i hoes yn Llanrug.



Parti Cylch Ti a Fi



Cyflwyno Wendy Parry ac Eirianwen Thomas am eu gwaith dros y tymor i Gylch Ti a Fi Llanrug.

Triathlon Noddedig Llanrug





## COFIO GWILYM

Sioc i bawb oedd marwolaeth sydyn Gwilym Griffith Williams, Muriau Gwynion, Llanddaniel Fab yn 66 oed ar ddiwedd mis Gorffennaf. Daeth torf fawr i ffarwelio ag ef yn yr Amlogfa ar yr 8fed o Awst.

Muriau Gwynion arall yng ngwaelod y Fachwen oedd ei gartref ac ar yr aelwyd hon y magwyd naw o blant i William ac Ellen Williams, sef Mair Eluned, Megan, Robert, Tomi, Beca, Ethel, John, Gwilym a James a fu farw ar ei enedigaeth. Dim ond tri bellach sydd ar ôl, sef Ethel, Megan a Rebeca.

Symudodd y teulu o Furiuau Gwynion i aelwyd Chwarel Goch yn uwch i fyny yn y Fachwen. Roeddwn yn ffrind i Gwilym er dyddiau plentyndod a threuliais dipyn o amser ar aelwyd Chwarel Goch a phrofi caredigrwydd mawr ei rieni bob amser. Roeddem ein dau yr un oed ac yn hoff o gwmni'n gilydd ac roedd Dinorwig a'r Fachwen yn lle delfrydol i ni blant - yng nghanolfan awyr iach orau'r byd gyda'i choedwigoedd a'i hafonydd, llynnoedd, ogofâu ac eiddo Chwarel fawr Dinorwig ar wasgar ymhob man.

Allan y byddem drwy'r dydd a hynny i gefndir golygfeydd ysblennydd. Mwynheais gwmni Gwilym yn y cyfnod braf hwnnw, roedd yn hogyn cyfeillgar, addfwyn, teyrngar, un y gallech ymdiried ynddo, yn llawn hwyl ac ni chai neb gam ganddo.

Aethom ein ffordd ein hunain pan euthum i Goleg Llambod ond braint fawr i mi, yn syth ar ôl cychwyn fel curad yng Nghaernarfon, oedd gwasanaethu yn ei briodas ef a'i wraig Ann yn St. Cross yn Nhalybont gan mai o Ddyffryn Ogwen y deuai Ann.

Treuliodd Gwilym ac Ann gyfnodau ar ôl priodi yn Chwarel Goch a Llanrug cyn croesi'r bont i Fôn a chartrefu yn Rhosybol a Llangefni ac, ers pedair blynedd ar ddeg, ym Muriau Gwynion yn Llanddaniel Fab. Gweithiodd Gwilym yn Chwareli Dinorwig a Bethesda ac mewn chwarel fach yn Rhyd Ddu cyn treulio blynyddoedd wedyn gyda'r Bwrdd Dwr. Roedd ganddo amrywiol ddiddordebau ond yn y blynyddoedd diwethaf ni fu yn dda ei iechyd. Meddyliai y byd o'i briod Ann a'i ferch Nicola a bydd gwacter ar ei ôl yn eu bywydau ac ar aelwyd Muriau Gwynion. Diolchaf am ei gwmni ar y llethrau slawer dydd lle roedd swm y byd a'i boen a'i drafferthion i ni hogia ymhell o'n clyw wrth i ni fwynhau ein cynefinoedd cyfarwydd.

Diolch am gael adnabod Gwilym a choffa da ohono.

Idris

**Diolch** Dymuna Derek, Sandra, Gerallt a Gwydion ddiolch yn fawr i Bwyllgor Gwyl Deiniolen am y rhodd a gafwyd er cof am Eleanor Morris, rhoddwyd yr arian i Eglwys Crist Llandinorwig. Diolch hefyd i'r holl gymuned

am eu cefnogaeth fawr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diolch eto.

**Llongyfarchiadau** i Bethan Moulton a'r basio gradd 4 corn.

**Cylch Meithrin:** Mwynhaodd plant y Cylch daith i Theatr Seilo, Caernarfon, ar ddydd Llun,

16 Mehefin i fwynhau sioe. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn dawnsio a chanu gyda Dewin a Doti. Ac wedyn am bicnic dros y Foryd yn yr heulwen. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu ac i'r rhieni a'r gwarcheidwaid am ymuno.

Ar nos Fawrth, 17 Mehefin, cynhaliwyd disgo fel rhan o wythnos Gwyl Deiniolen a'r Cylch. Gyda'r heulwen yn disgleirio, cerddoriaeth i ddawnsio iddo a digon o ddanteithion a chwn poeth bendigedig, cafwyd noson o hwyl! Diolch i bawb am ddaeth i gefnogi!

Hoffai'r Pwyllgor gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn am yr holl gefnogaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur gyda lluoedd digwyddiadau fel y cyngerdd Nadolig, ymweliad gan Carys Ofalus, noson cwis ac ymweliad hynod lwyddiannus Estyn. Diolch i'r staff am eu gwaith caled a brwdfrydig pob amser. Diolch i drigolion Deiniolen a'r ardal am eu cefnogaeth, o gyfrannu rhoddion i fynychu digwyddiadau'r Cylch. Yr ydym wedi llwyddo i gasglu arian yn ystod y flwyddyn sydd yn mynd i dalu am ddau I-Pad newydd i'r Cylch ar gyfer mis Medi 2014. Bydd y plant wrth eu boddau! A diolch arbennig iawn i blant y Cylch am weithio more galed ac am fod yn blant mor dda!

**Diolch** Dymuna Beryl Griffith (Ysgol Gwaun Gynfi) ddiolch i athrawon, cymorthyddion, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion, ffrindiau a holl staff yr ysgol am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch yn fawr iawn.

**Dymuna** Mrs Beti Roberts, 25 Rhydfadog, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a'r holl garedigrwydd a ddangoswyd iddi tra bu yn yr ysbyty wedi damwain yn ei chartref. Diolch i staff Ward Conwy am eu gofal arbennig a diolch yn arbennig hefyd i Buddug a Rhianwen am edrych ar ei hôl wedi dod adref a bob dydd o'r flwyddyn.

**Dymuna** Edward a Joyce, brawd a chwaer-yng-nghyfraith y ddiweddar Deanna Wynn Price, Tros-y-Waen, Pentir, ddiolch i deulu a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth.

Diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion tuag at Ward Tryfan, Ysbyty Gwynedd. Diolch arbennig i'r Barchedig Ddr Carol Roberts a Dr Munro am eu gwasanaeth a hefyd ein mawr ddiolch i Dylan a Meinir Griffith am eu trefniadau tawel a pharchus.

**Robert Iorwerth Evans** Dymuna Pat, Eirian, David, Llion, Glenda a Carys a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl. Diolch am y lluoedd cardiau, galwadau ffôn a phob ymweliad ar cyfraniadau hael tuag at Weinyddesau Macmillan a Meddygfa Llanberis. Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy ac i Wyn Williams, yr Organydd, a hefyd Stephen Jones, Pen y Bryn, Bethesda am eu trefniadau trylwyr. Diolch arbennig hefyd i dim Hosbis yn y Cartref, Meddygon a Nyrsys Meddygfa Llanberis am eu cymorth i'n hwyluso ni fel teulu i ofalu amdano gartref.

**grid76** dylunio graffeg/graphic design  
darlunio/illustration  
animeiddio/animation  
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk  
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS  
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau  
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul  
• PRIODASAU •

**Ffôn- 01286-870253**  
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL  
Snowdonia



**Eglwys Crist** – Cofio Dydd Llun, Awst 4ydd oedd y Dydd i Gofio y Rhyfel Mawr 1914-18. Cofio'r rhai a laddwyd neu a glwyfwyd a'r rhai a ddychwelasant yn fyw, ond yn ail-fyw eu profiadau ar hyd eu hoes.

Y Sadwrn blaenorol cafwyd Gwasanaeth arbennig o deimladwy yn Eglwys Crist dan arweiniad Dr William Munro a hefyd datganiad ganddo ar yr organ.

I gyd-fynd â'r achlysur yr oedd Arddangosfa wedi ei pharatoi, lluniau a hanes y cyfnod. Roedd Mr Hywyn Williams wedi paratoi rhestr 'or man lle y lladdwyd ac a gladdwyd, enwau ar y 'Menin Gate Memorial' lle nid oedd man claddu, i'r rhai sydd a'u henwau ar y Gofeb y tu allan i Lyfrgell Deiniolen. Gwerthfawrogwn waith ymchwil hynod Hywyn Williams i'r cyfnod erchyll yma yn ein hanes.

Paratowyd lluniaeth ysgafn i'r rhai a alwodd i mewn yn ystod y dydd. Diolch i bawb a ddaeth i gofio ac i gefnogi. Trosglwyddwyd y rhoddion a gasglwyd yn ystod y dydd i gronfa 'Help the Heroes'.

**Diolch** Dymuna Daniel Ellis, 3 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gyfarchion a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur derbyn ei Radd o Gaerdydd.

**Llongyfarchiadau** i Elin Dafydd a'r basio arholiad gradd 1 corn.

**Llongyfarchiadau** i Jack Ynyr Regan sydd wedi ennill y wobwr 'Myfyriwr Gorau' yn ei gwrs Rheoli Cefn Gwlad a Choedwigoedd (Countryside Management a Forestry) yn Ngholeg Glynllifon Meirion/Dwyfor, Glynllifon yn y flwyddyn 2014. Mae Jack yn mynd ymlaen i Brifysgol Bangor yn mis Medi i astudio Daearyddiaeth.

**Angladd** Ar fore Sadwrn, 14eg o Fehefin, bu farw Carys Griffiths, un a aned i deulu amlwg yn Neiniolen yn 87 oed. Roedd ei hangladd yn Eglwys Sant Pedr, ym mhentref Wdigh yn Sir Benfro ac yn dilyn yn Amlwgfa Parc Gwyn yn Arberth a hynny ar Sadwrn 21ain o Fehefin.

Yn gwasanaethu yr oedd y Parch Brian Barnes.

Talwyd teyrnged ardderchog iddi yn y gwasanaeth gan ffrind iddi ac roedd nifer o Offeiriaid yn bresennol.

Ail ferch i Hugh a Margaret Jones, Albert House, Deiniolen oedd Carys. Siop hynod boblogaidd ar brif stryd y pentref oedd ei chartref ac roedd pawb yn ei hadnabod fel siop Cocroom. Yr oeddent yn gwerthu melys-fwydydd, llestri, melysion a gwnaent eu hufen ia eu hunain. Dywedir na fyddai'r siop byth yn cau yn gynnar.

Yr hynaf o'r tri phlentyn oedd Llystyn a'r ieuengaf yw Mrs Elspeth Griffith, Llys, Brynrefail.

Ar ôl dyddiau Ysgol aeth Carys i ddilyn cwrs Ffisiotherapi mewn Coleg yn Lerpwl a bu'n gweithio yn y maes hwn yn America a Puerto Rico am gyfnod cyn dychwelyd i Gymru a gweithio yn Ysbyty Hwlfordd yn Sir Benfro. Yno y cyfarfu ei gwr, sef y Canon Lyn Griffiths ond yn ôl i America yr aeth pan gafodd ei gwr swydd gyfnewid mewn plwyf yno. Yn America y ganwyd eu plentyn hynaf, sef Richard. Ond yn ôl y daeth y teulu i Benfro lle bu ei gwr wedyn yn Offeiriad plwyf hyd nes ei ymddeoliad. Perthynai i Carys bersonoliaeth liwgar, egniol, caredig, byrlymus a byddai wrth ei bodd yng nghanol pobl. Deuai yn fynych yn ôl i'w hardal enedigol a chadwodd gysylltiad agos ag Eglwys Llandinorwig lle y'i magwyd a lle roedd ei theulu yn hynod ffyddlon. Bu ei chwaer Elspeth yn Warden yn yr Eglwys am flynyddoedd.

Cydymdeimlir â'i chwaer Elspeth a chyda phlant Carys, sef Richard a Maggie a'r holl deulu yn eu profedigaeth. Aeth plant a theulu Mr a Mrs W.H. Griffith, Llys, i lawr i Sir Benfro i'w hangladd.

Aeth rhoddion er cof am Carys tuag at Ward arbennig yn Ysbyty Withybush.

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfa

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfa am 7.30 o'r gloch ar nos Fawrth, 16eg Medi, yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon. Y siaradwr gwadd fydd Ifor ap Glyn a thestun ei ddarlith fydd 'Llythyrau o'r Ffrynt: 1914-1918'. Bydd croeso cynnes i bawb a beth am ymaelodi eleni - mae gwledd yn eich aros. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

**GERAINT OWEN  
CARPEDI**

**CARPEDI • VINYLS • TEILS**  
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS  
**A RHAI MEWN STOCK**

**Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd**  
**A Uned 5 Gwyrfa Mill Bontnewydd**

**(01286)650552 Mob. 07712779475**

**ARVONIA**

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyffandir.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | [www.arvoniaco.uk](http://www.arvoniaco.uk)

**Caffi Caban**  
ar agor  
9 y bore tan 4 y pnaun- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf  
Wedi Ei Sefydlu i  
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

**Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail**  
[www.caban-cyf.org](http://www.caban-cyf.org) [caban@caban-cyf.org](mailto:caban@caban-cyf.org)  
**01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)**



Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore



## Prom 14

"Y Byd i'n Disgyblion a Disgyblion i'n Byd"



Ar y 23ain Mai 2014 fe ffarweliodd disgyblion blwyddyn 11 â'r ysgol ar ddiwedd cyfnod hir o arholiadau.

Ar y 4ydd o Orffennaf 2014 fe ddaeth merched a dynion ifanc yn ôl yn eu lle i ddathlu eu cysylltiadau â'r ysgol dros gyfnod o bum mlynedd trwy fwynhau Prom 14.

Fel y llynedd fe ddathlwyd cysylltiadau'r criw ifanc â'r ysgol dros gyfnod gyda Prom fawreddog a drefnwyd gan Mrs Ellen Williams. Ar ôl ymgynnull yn neuadd yr ysgol i westy

Victoria, Llanberis, amdani er mwyn mwynhau cinio swmpus a dawnsio brwdfrydig.

Ni welwyd erioed gymaint o ferched ifanc hardd a dynion ifanc golygus dan do un ystafell fawreddog.

Bu bwyta a sgwrsio, chwedleua a chwerthin, dawnsio egniol a hynny i ddathlu y cyfraniad ganddynt i Ysgol Brynrefail a chyfraniad Ysgol Brynrefail yn eu datblygiad.

Dymuna teulu Brynrefail y gorau oll iddynt yn eu dyfodol.

## TAG

Bob dydd Gwener mae rhaglen TAG yn dod â'r diweddaraf o fyd chwaraeon, ffilmiau, ffasiwn a selebs i blant a phobl ifanc Cymru, a heddiw mae'r gyfres yn dychwelyd i'r sgrin gyda dau wyneb newydd. Ymunwch â'r cyflwynwyr newydd, Mari Lovgreen ac Owain Williams, ar gyfer cyfres newydd sbon!

Yn ddiweddar daeth cwmni teledu 'Boom Plant Cymru' i'r ysgol i gyfweild disgyblion ar gyfer y rhaglen boblogaidd TAG.

## ERYRI A ORFU

Ar ôl diwrnod hir a chaled o gystadlu brwdfrydig dim ond 42 o farciau oedd rhwng cyntaf ac ail ond Eryri a orfu ym Mabolgampau'r ysgol eleni gyda chyfanswm o 1193 o bwyntiau.

Ac ar ddiwedd y dydd cafodd Sioned Phillips a Gwion John, capteiniaid Eryri, y fraint o godi tlws y tîm buddugol.



# “Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



## Chwalfa

Fe wyddoch y stori. Mae hi'n ddechrau'r 20fed ganrif, ac mae Bethesda'n bentre' rhanedig oherwydd Streic Fawr Chwarel y Penrhyn. Mae teulu Gwynfa, cartre' Edward a Martha Ifans a'u plant, yn diodde'n enbyd oherwydd y caledi a'r chwalu a ddaw yn sgil yr anghydfod, fel llawer teulu arall yn ardal Dyffryn Ogwen. Ond wrth i'r streic ddwysáu a'r chwalfa ddod yn amlycach, caiff bywyd pob un o'r pum plentyn a'u rhieni yn eu tro ei newid am byth. I ddathlu agor 'Pontio', y Ganolfan Perfformio ac Arloesi newydd ym Mangor, bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio'r ddrama 'Chwalfa'. Ymhlith y cast bydd Siôn Emlyn Parry, blwyddyn 12, sy'n hanu o Landdeiniolen. Yr ydym yn fwy na balch bod Siôn wedi cael ei ddewis i actio yn y ddrama oherwydd y mae cysylltiad arall rhwng y nofel/ddrama Chwalfa a Brynrefail. Yr oedd T. Rowland Hughes, yr awdur, yn gyn disgybl.

## Pencampwyr

Victor a Victrix Ludorum yw'r enw Lladin am "enillydd y gemau." Mae fel arfer yn dlws ac sy'n cael ei gyflwyno i'r unigolyn llwyddiannus, neu gystadleuydd mewn digwyddiad chwaraeon. Mae'n draddodiadol ar rai diwrnodau chwaraeon ysgolion ym Mhrydain. Mae fel arfer yn cael ei gyflwyno i'r athletwr / wraig sydd wedi ennill y rhan fwyaf o ddigwyddiadau neu sydd wedi cronni'r pwyntiau mwyaf drwy gystadlu mewn llawer o ddigwyddiadau. Eleni ym mabolgampau Ysgol Brynrefail Mair Loxton yw'r Victrix Ludorum a hithau wedi cronni'r pwyntiau mwyaf yng nghystadleuaeth y merched. Rhannwyd tlws y Victor Ludorum rhwng Ifan Mansoor a Siôn Alun ddaeth yn gyfartal ar ôl diwrnod brwdfrydig o gystadlu.





### Llongyfarchiadau ar Ennill Cystadleuaeth.

Mewn cyfarfod agored yn ddiweddar penderfynwyd ailsefydlu carnifal/gwyl yn Waunfawr a'i alw yn Gwyl Bentref Waunfawr a'r Cylch. Fe gynhaliwyd cystadleuaeth yn yr ysgol i greu logo i'r wyl ac roedd yna lawer o ymgeision da ond y gorau yn ôl y beirniad, Mrs Elin Huws Jones, oedd Arian Matthews, Blwyddyn 3. Enillodd Arian docyn i ddau i fynd i Sw Bae Colwyn

Diolch o galon i Mrs Gwenan Williams, Pennaeth yr ysgol, i Mrs Siân Williams, athrawes celf yr ysgol, ac i'r holl blant am eu gwaith. Diolch o galon hefyd i Elin Huws Jones am ei hamser i feirniadu.

**Dymuna** Olwen a Norman a theulu Llidiart Wen ddiolch yn ddiffuant am bob mynegiant o gydymdeimlad a charedigrwydd wedi colli mam, nain a hen nain arbennig iawn. Roedd Nan Roberts, a fagwyd yn Neiniolen, yn gymeriad addfwyn doeth a chroesawgar. Gweithiodd yn dawel a dirodres ar draws sawl cymuned, gan gynnwys Carmel a Brynrefail. Bu'n graig gadarn i'w phriod, y diweddar Barchedig Bryn Roberts, ac i'w theulu. Erys yr hiraeth, erys y golled.

Mae'r rhoddion a dderbyniwyd er cof amdani wedi eu hanfon at Epilepsi Cymru.

### YSGOL WAUNFAWR

#### Cyfraniad at elusen 'Gafael Llaw'

Bu'r disgyblion yn casglu arian tuag at yr elusen lleol 'Gafael Llaw', drwy ddod i'r ysgol yn eu dillad eu hunain a thalu dirwy am gael gwneud. Llwyddwyd i gasglu £200 yn ystod y weithgaredd. Daeth Mr Iwan Trefor Jones, Mr Gareth Owen a Mr Kevin Williams i'r ysgol i dderbyn y siec ar ran yr elusen. Bydd y tri ohonynt yn rhan o dim o ddeg a fydd yn

beicio o amgylch Cymru i godi arian i'r elusen.

Bu'n dymor eithriadol o brysur dyma rai o'r digwyddiadau:

#### Diwrnod Mabolgampau

Cawsom ddiwrnod digon braf i gynnal Mabolgampau'r ysgol ar Fehefin y 20fed. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda thim Cwellyn yn ennill am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Llongyfarchiadau mawr i'r capteiniaid, sef Meilir BL 6 ac Ela BL 5.

Dyma restr o enillwyr y marciau uchaf yn eu blwyddyn: Dosbarth Derbyn = Mari a Hari Llywelyn

Blwyddyn 1 = Cadi, Cai ac Osian

Blwyddyn 2 = Ellie, Robin ac Osian

Blwyddyn 3 = Nel ac Ianto

Blwyddyn 4 = Sophie, Chloe Ann a Gruff

Blwyddyn 5 = Efa a Celt

Blwyddyn 6 = Emily ac Iwan  
Pencampwyr yr ysgol eleni = Emily o flwyddyn 6 a Celt o flwyddyn 5. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn - hoffwn ddiolch i'r plant am gystadlu mor frwd ac am eu hymddygiad

rhagorol. Diolch hefyd i'r mamau a fu'n ddiwyd drwy'r dydd yn paratoi paned ac ar y stondin.

#### Tripiau ddiwedd tymor

Treuliodd y dosbarth meithrin fore ym Mharc Sipsi Caeathro dydd Mercher Gorffennaf 7fed tra bu plant y dosbarth derbyn i flwyddyn 5 yn Gelli Gyffwrdd wythnos olaf y tymor. Treuliodd blwyddyn 6 ddiwrnod yn Crocky Trail ger Caer. Mwynhaodd pawb eu tripiau a rhaid canmol y plant am eu hymddygiad rhagorol.

Ond efallai mai uchafbwynt y flwyddyn i ddosbarth yr Wyddfa oedd cael mynd i aros am dridiau i Ganolfan Awyr Agored Rhyd-ddu. Cafwyd taith i gopa'r Wyddfa, canwio ar Lyn Llanberis, ymweld â'r amgueddfa a chael mynd am fwyd i gaffi Glasfryn, Beddgelert. Dyma adroddiad Efa a Beca o flwyddyn 5.

Adroddiad Beca Haf - Fyny'r Wyddfa y diwrnod cyntaf Wrth ddod oddi ar y bws sylweddolais fy mod wedi anghofio fy nhrowsus dwr!! Mi roeddwn i yn wlyb socian. Hanner ffordd fe gawsom rhywbeth bach i fwyta cyn ail gychwyn.

Pan gyrhaeddodd ni'r copa roedd y Wyddfa yn gwisgo'i chap! felly doedden ni ddim yn gallu gweld yr olygfa anhygoel. Ac ar ben hynny roedd Hafod Eryri wedi cau! Roeddwn mor siomedig. Aethom lawr llwybr Llanberis a, diolch byth, roedd caffi hanner ffordd ar agor. Cafodd pawb siocled poeth a rhywbeth i fwyta.

Adroddiad Efa BL 5 - Llanberis yr ail ddiwrnod

Yr ail ddiwrnod roedden ni yn mynd i Lanberis. Canwio ar y Llyn ac ymweld â'r Amgueddfa Lechi. Roedd y ddwy weithgareddau yn ffantastig.

Dal y bws wedyn nôl i Ryddu ac ymlaen i Feddgelert. Swper yng nghaffi Glaslyn roedd yn flasus iawn iawn. Wedyn aethom i barc chwarae Beddgelert cyn gwyllo ffilm 'grown ups'. Aethom adre o'r Ysgol yn gynnar y diwrnod canlynol roedd pawb wedi blino yn lân ond roeddwn i wedi mwynhau yn fawr iawn iawn ac roeddwn yn edrych mlaen i ddod adra i gael gweld mam, dad, Cadi, Alaw a phawb

arall o'r teulu.

#### Diwrnod o sesiynau hyfforddiant gan y plismon

Treuliodd y plismon ddiwrnod yn rhoi gwersi ar wahanol agweddau o fod yn ddiogel. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr bydd rhagor o wersi yn y tymor newydd.

#### Ymweliad blwyddyn 6 a Brynrefail

Bu blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Brynrefail ddiwedd Mehefin a chawsant ddiwrnod gwerth chweil. Pawb yn edrych ymlaen rwan i gychwyn ym mis Medi.

**Ffair Haf** Cafwyd noson lewyrchus iawn gyda nifer fawr o stondinau a chynnyrch i'w werthu. Roedd hi'n braf gweld cymaint o rieni wedi dod i gefnogi y noson. Diolch unwaith eto i Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yr Ysgol am drefnu.

#### Noson rhieni newydd a phlant meithrin yn ymweld â'r ysgol

Cynhaliwyd noson i rieni'r plant meithrin a fydd yn cychwyn ym mis Medi nos Lun, Gorffennaf y 14eg. Braf oedd gweld cymaint o rieni'n bresennol. Treuliodd y plant fore yn yr ysgol a phob un ohonynt yn blant da. Edrychwn ymlaen i'w derbyn ym mis Medi.

#### Diwrnod Ffarwelio blwyddyn 6

Cynhaliwyd cyfarfod Gwobrwyo Blwyddyn 6 yn neuadd yr ysgol dydd ola'r tymor. Estynnwyd gwahoddiad cynnes iawn i rieni a neiniau a theidiau plant Blwyddyn 6 i ymuno gyda ni ac yna am baned ac ymddangosiad "Photo Story" arbennig yn neuadd yr ysgol. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad crand a gwobrwywyd pob plentyn yn unigol am ddawn arbennig. Cyflwynwyd llyfr lloffion a tharian yn rhodd gan yr ysgol. Dymunwyd yn dda iddynt yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

**Dymuniadau gorau** Hoffem ddymuno yn dda i Anti Mari ac Anti Anest sydd wedi bod yn gweithio yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i chwi am eich gwaith a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Mehefin oedd: £30: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £20: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £10: Mr a Mrs D. Greasley, Minafon.



**Ymddiheuriad** Rhaid ymddiheuro i un o bobl ifanc y pentref, Mared Ynyr, Dolwar Fach, am beidio ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn un o gystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod yr Urdd Bala. Da iawn ti, Mared.

**Eisteddfod Genedlaethol** Llongyfarchiadau i Duncan Brown, Gwelfor, ar gael ei dderbyn i'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lanelli. A'r enw Gorseddol? - Duncan Brown.

**Llongyfarchiadau** hefyd i barti canu 'Genod Gwyrfa'i' a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod. Mae'n dipyn o ymroddiad i ddysgu'r geiriau ac i fynychu'r ymarferion i baratoi at y cystadlu.

**Sioeau Amaethyddol** Bu cryn gystadlu yn y sioeau amaethyddol a llongyfarchiadau mawr i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar ei llwyddiant yn y Sioe Frenhinol a Sioe Môn. Derbyniodd y wobwr gyntaf ac ail gyda'r ferlen 'Nutmeg' a'i chyw, a'r pedwerydd wobwr gyda'r ferlen 'Prydwen' a'i chyw yn y Sioe Frenhinol. Daeth llwyddiant gyda Nutmeg a Prydwen a'u rhai bach yn Sioe Môn hefyd.

**Llongyfarchiadau** i bob un o'n pobl ifanc ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn yn dda ichi i'r dyfodol.

**Dymuniadau da** o'r ieuengaf i'r hynaf fydd yn cychwyn ar eu gyrfa yn yr ysgol, mewn coleg a swydd. Gwnewch eich gorau a mwynhewch.

**Llongyfarch** Dymuna teulu Lesley Ann, 4 Bryn Golau, ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn graddio i fod yn Therapydd Galwedigaethol. Maent yn falch iawn ohonot.

**Pen-blwydd Priodas** Llongyfarchiadau i Peter a Janet Greasley, Stad Pant y Waun, a fu'n dathlu cyrraedd eu Priodas Berl yn ddiweddar.

**Pen-blwydd Arbennig** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Stephanie, Stad Ty Hen, ar gyrraedd ei deunaw oed y mis hwn.

Bu Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau, yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed a Mrs Betty Hughes,

Collfryn, ond yn awr ym Mhlas Ogwen, Bethesda, yn dathlu ei 94 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a chofion annwyl at y ddwy ohonoch.

**Priodas** Dydd Iau, Gorffennaf 24, priodwyd Alan Jones, Bryn Menai â Suzanne. Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i'r ddau ar yr achlysur hapus. Maent wedi cartrefu yng Nghaernarfon.

Dydd Sadwrn, Awst 9fed, yng nghapel bach Golan, priodwyd Osian Elfryn, Coed Gwydryn, â Siân Morgan o Gricieth. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref yng Nghaernarfon.

**Gwaeledd** Anfonwn ein cofion at y rhai yn y pentref sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hyderwn y byddwch yn gwella ac yn cryfhau. Fe fydd yn braf eich gweld o gwmpas eto.

**Yn Gwella** Mae'n braf gweld Gerallt Williams, Stad Ty Hen, yn gwella wedi iddo gael niwed go arw drwy ddamwain ar ei feic.

Cymerwyd Mr Arthur Ellis i'r ysbyty ond mae yn gwella erbyn hyn ac wedi cael dod adref.

Mae Roy Jones, Cynefin, yn gwella wedi iddo gael triniaeth yn yr ysbyty ac hefyd mae Rachel Hanks, Stad Ty Hen yn gwella wedi triniaeth i'w braich. Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da am wellhad buan atoch i gyd.

**Profedigaethau** Cydymdeimlwn yn ddwys ag Olwen a theulu Llidiart Wen yn eu profedigaeth drist o golli mam a'n ain annwyl iawn iddynt.

Yn dawel bu farw R. Hefin Jones, Llechwedd (gynt o Fferm Glyn Afon). Anfonwn ein cydymdeimlad at Anwen, Pat a Nan a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth am dad a thaid annwyl.

Daeth y brofedigaeth o golli ei dad i ran Paul Roberts, Cae Caled. Cydymdeimlwn yn ddwys ag ef a'r teulu yn eu profedigaeth.

Daeth tristwch a hiraeth i ran teulu Bryn Melyn yn eu profedigaeth o golli nain Sara.

**Clwb Pêl-droed** Mae hi wedi bod yn dymor a hanner i Glwb Pêl-droed Waunfawr eleni gyda phob tîm wedi dangos ymroddiad a datblygiad fel tîm ym mhob oedran, y tîmau dan 7, 9 ac 11. Mae'r tîmau bellach dan adain Haydn Jones, gyda is-hyfforddwyr o'r pentref yn cydweithio'n agos gydag ef, fel Paul ac Elgan ac ambell riant arall o'r pentref yn cynorthwyo.

Gorffennwyd y tymor wrth dorri tir newydd yn hanes clwb y pentref pan enillodd y tîm dan 9 Dwrnamaint Cynghair Gwyrfa'i ar y 7fed o Fehefin yn Llanllyfni. Yn dilyn ymchwil manwl yn ôl i hanes Clwb y Pentref dyma Dwrnamaint nad ydyw erioed wedi cael ei ennill gan hogia Waun o'r blaen. Doedd hi ddim yn dwrnamaint hawdd o bell ffordd ac roedd yn rhaid i'r tîm wynebu 5 gêm herfeiddiol cyn sicrhau eu lle yn y ffeinal, ond fe lwyddon nhw i ddal eu tir a chydweithio'n wych fel tîm. Dyma oedd y canlyniadau:

Waunfawr v Llanberis – curo 5-1  
Waunfawr v Nantlle Vale (B): curo 7-1  
Waunfawr v Segontium: 3-3  
Waunfawr v Nantlle Vale (A): 1-1  
Waunfawr v Cae Glyn: 2-2

Roedd y gêm yn y ffeinal yn un wych, ac er nad ydyw ennill yn brif weledigaeth gan Haydn, yr hyfforddwr, fe sicrhodd y cydchwarae fel tîm fuddugoliaeth o 3-0! Mae pob tîm wedi datblygu yn ystod y tymor, ac mae'r polisi o ganolbwyntio ar ddatblygiad pob chwaraewr a chael pob unigolyn i gydweithio fel tîm yn sicrhau bolisi llwyddiannus sy'n sicrhau cydraddoldeb a chwarae teg i bawb o fewn y tîmau.

Hoffwn ar ran holl rieni'r plant ddiolch i Haydn a'i dîm o hyfforddwyr am eu gwaith caled gyda'r plant, a dymuno'n dda iddyn nhw ar gyfer y tymor sydd i ddilyn.

## NANT PERIS



### Arddangosfa Clytweithwyr Peris.

Yn dilyn arddangosfa lwyddiannus o gwiltiau a chreffftwaith yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris ddiwedd Gorffennaf, dymuna'r aelodau ddiolch i bawb a gefnogodd yr achlysur.

Casglwyd £225 ac fe'i cyflwynwyd yn rhodd tuag at Blas Pengwaith, Llanberis.

**PROBLEM GYDACH CYFRIFIADUR?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a **GWELLA** EICH CYFRIFIADURON CYSYLLTWCH A

**GOMER ROBERTS**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

**(01286) 870462 Symudol-07962 712368**





**Gareth Roberts,  
arweinydd  
y daith gerdded**

## Dathlu Canrif a hanner o addysg ym Methel.



Braf roedd gweld cymaint y diddordeb yn nathliadau 150 mlwyddiant a hanes yr Ysgol (a'r pentref) yn ddiweddar. Bu staff a disgyblion yr ysgol yn gweithio'n galed mewn cydweithrediad a Chynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen i gynnal sawl achlysur diddorol dros ben. Yn anhygoel, daeth 71 o blant a rhieni ar daith gerdded i glywed am hanes yr ysgol a'r pentref ar nos Wener

27ain o Fehefin. Ac am hanes! Fe glywsom am sawl trasiedi, am derfysg yn yr ysgol wreiddiol a hanesion digri am rhai o gyn-gymeriadau bythgofiadwy y pentref. Arweinwyd y daith gan Gareth Roberts o Menter Fachwen.

Syndod wedyn oedd gweld 215 yn dod trwy ddrysau Canolfan y Pentref ar Nos Iau 3ydd o Gorffennaf i weld arddangosfa, sioe sleidiau a ffilmiau o hanes

yr ysgol a'i lle yn y pentref ers 1864. Cymaint oedd y galw, roedd rhaid cadw'r arddangosfa ar agor y diwrnod canlynol. Arweinwyd y noson gan Mrs Nia Guillemmin, y brifathrawes bresennol (y 10ed 'prifathro' ers 1864 gyda llaw) a'r Gweinidog Marcus Robinson. Hoffai Gareth ddiolch yn fawr iawn i holl staff a disgyblion yr ysgol am eu croeso a'r holl waith caled tra'n paratoi yr arddangosfa.

## **BRYNREFAIL** Mrs Lowri Prys Roberts. Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched**  
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod misoedd yr haf.

Bu nifer dda o'r aelodau ar Helfa Drysor a drefnwyd gan y llywydd, Pat Jones, a'r ysgrifenyddes, Carol Houston. Anfonwyd cynrychiolaeth o'r gangen leol i Gyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched a gynhaliwyd eleni yn Leeds.

Cafwyd diwrnod arbennig ddiwedd Mehefin pan drefnwyd ymweliad ag Eglwys Nant Peris gyda Ken Jones yn adrodd yr hanes am yr eglwys hynafol a'r fynwent. Roedd Te Mefus wedi ei baratoi ar gyfer bron i gant o ferched ac roeddynt oll wedi mwynhau y diwrnod yn fawr.

Bala oedd y gyrchfan i gyfarfod Gorffennaf lle cafodd nifer dda o'r aelodau gyfle i fwynhau arddangosfa gan Illumin Arte dan ofal Julie Rogers. Fe ddangosodd y grefft o greu 'Gwydr lliw'. Mwynhaodd pawb bryd o fwyd i orffen y diwrnod yn Hen Siop Frongoch.

Ddiwrnod Ras yr Wyddfa nid oedd y tywydd yn ffafril iawn ond cafodd y gangen ddiwrnod llwyddiannus yn gwerthu bric a brac.

Wedi'r gwyliau bydd yr aelodau yn ail ymgynnull fis Medi. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r

cyfarfodydd Cadw'n Heini a gynhelir bob prynhawn Mercher am 1 o'r gloch yn y Ganolfan yn Llanberis – cysyllter â Pat Jones 01286 870589 os oes diddordeb gennych. Edrychwn ymlaen i weld Lowri Prys Roberts yn dod atom fel siaradwraig mis Medi. Bydd hefyd nifer o weithgareddau yn dilyn yn ystod yr hydref – Diwrnod Chwaraeon yn y Ganolfan Porthmadog, Cinio'r Ffederasiwn a Chyrsiau Undydd ym Mhlas Tanybwllch.

### **Yr Eglwys Bresbyteraidd**

Y Gymdeithas Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Gymdeithas. Nos Iau, Mehefin 12fed, croesawodd y Cadeirydd Dafydd Ellis, Gweledfa, Dafydd Roberts, Llanberis, fel y siaradwr gwadd. Cafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni yn sôn am nifer helaeth o ddamweiniau awyrennau yn Eryri dros y blynnyddoedd a chafwyd cyfle i weld nifer o ddarluniau o olion damweiniau wedi eu tynnu mewn safleoedd diarffordd. Roedd yn amlwg fod y siaradwr gwadd wedi treulio llawer o oriau i ymchwilio ac ymddiddori yn y maes hwn.

Nos Iau, Gorffennaf 24ain, gyda Ifanwy Jones, Rhandir, yn llywyddu'r noson, cafwyd sgwrs arbennig yng nghwmni Huw John Hughes, Porthaethwy, dan y teitl "Milgi chwim y weilgi". Cawsom

ein tywys yn gelfydd yn y rhan gyntaf i hanes llongddrylliad yr Hindlea yn Hydref 1959 drwyddo greu deialog fyw rhyngddo ef a'r diweddar Richard Evans, Moelfre yn ei orchest ef a'i griw yn achub y morwyr. Yna cawsom adroddiad cyffrous am y digwyddiad erchyll gan mlynedd union ynghynt, sef

### **Oedfaon Medi am 5.30**

- 7: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
  - 13: Oedfa dan nawdd yr Aelodau
  - 20: Parch Trefor Jones, Caernarfon
  - 27: Parch Eric Jones, Bangor
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.



**Priodas** Dydd Iau, Gorffennaf 31ain, gyda'r Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, priodwyd Lowri Prys Roberts Williams, Godre'r Coed, Brynrefail â Mr Huw Fôn Roberts, Ynys Môn. Yr organydd oedd Mr Gwilym Lewis. Dymunwn y gorau a phob bendith i'r ddau ohonynt.



**Diolch o Galon** i bawb am gefnogi'r 'Strawberry Tea' yn y Neuadd Goffa, Bethel. Codwyd £737 at Breast Cancer Care.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Huw a Maud Williams, Deulyn, ar ddathlu 60 mlynedd o briodas ar Awst 14eg. **Llongyfarchiadau** mawr i Lois Pennant Llwyd Jones, Rhyd Alaw, 2 Tan y Bryn, ar ei llwyddiant yn ei arholiadau lefel A a phob dymuniad da iddi yn ei chwrs yng Nghaerfyrddin gan mam a dad.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i holl blant

yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau eleni a phob dymuniad da iddynt ar eu cam nesaf yn eu gyrfa, boed hynny mewn gwaith, coleg neu ysgol.

**Gŵyl Bethel** Daeth criw da iawn ynghyd yn y cae pêl-droed i fwynhau Gŵyl Bethel, ddydd Sadwrn 16 Awst, gyda nifer dda o stondinau, cystadlaethau gwisg ffansi a fflôts ynghyd ac adloniant gan unigolion a bandiau yn y babell fawr. Diolch yn fawr i'r criw gweithgar fu'n trefnu eto eleni.

**Merched y Wawr** Diolch yn fawr i bawb fu'n helpu ar y

stondin yn ystod Gŵyl Bethel, hefyd i'r rhai gyfrannodd lyfrau a chefnogi'r gêm 'dyfalu'. Enillydd y gêm oedd Steffan. Diolch hefyd i'r trefnwyr am ofalu ar ein cyfer.

Bydd tymor newydd y gangen yn dechrau ar nos Fercher, 10fed o Fedi, yn festri'r Cysegr am 7.15 (\*noder yr amser - er mwyn rhoi cyfle i ymaelodi a.y.b.) Edrychwn ymlaen am noson o adloniant yng ngofal Sian Wheway, Ceunant, a bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Mae'r gangen yn dathlu ei phen-blwydd yn 40ain oed eleni - croeso cynnes i gyn

aelodau ail ymuno, gobeithiwn weld wynebau newydd a'r ffyddloniaid, wrth gwrs. Mae rhaglen ysgafn a diddorol wedi'i threfnu ar eich cyfer.

**Clwb Bro Bethel** Bydd gweithgareddau'r Clwb yn ail gychwyn brynhawn Mawrth, Medi 9fed, am 2.00 yn Festri Bethel. Y siaradwr gwadd fydd y Dr. J. Elwyn Hughes, a bydd croeso i aelodau newydd ymuno â'r Clwb a chael cyfle i gymdeithasu ymysg cyfeillion. Bydd panad ar ddiwedd pob cyfarfod.

YSGOL BETHEL

**Staff** Hoffem fynegie i'n llongyfarchiadau i ddwy o'n cymorthyddion ar lwyddo i gael eu derbyn ar gyrsiau Addysg Uwch ym Medi. Bydd Mrs Julie Bragan yn dilyn cwrs MA mewn Cymdeithaseg a bydd Miss Allana Evans yn dilyn cwrs Nyrsio. Mae'r ddwy wedi bod yn aelodau gwerthfawr iawn o staff Ysgol Bethel dros y blynyddoedd a bydd bwlch mawr ar eu holau. Pob dymuniad da iddynt.

Bu Lowri Ifan, myfyrwraig TAR Coleg Addysg Prifysgol Cymru, yn cyflawni ei chyfnod o Brofiad Ysgol gyda dosbarth Seion gydol y tymor hwn. Bu Miss Ifan yn fyfyrwraig hynod o fedrus ac ymroddgar yn ystod ei chyfnod yn Ysgol Bethel a bydd yn braf gallu ei chynnwys ar staff yr ysgol ym Medi. Ein dymuniadau gorau hefyd iddi ar achlysur ei phriodas ym Medi.

Hoffem gyfleu ein dymuniadau gorau i Mr Dylan Parry a Miss Sharon Jones ar achlysur eu priodas ym mis Gorffennaf. Dymunir pob hapusrwydd iddynt.

**Gwobr Treftadaeth Cymru** Llongyfarchiadau i B6 ar ennill Gwobr Treftadaeth Cymru am yr ail flwyddyn. Bydd yr ysgol yn derbyn gwobr o £200 am y gwaith hanes a gyflwynwyd yn ymwneud â'r Ysgol Ddoe a Heddiw. Diolch i Mr Dylan Parry ac i'r disgyblion am eu gwaith wrth ymwneud â'r prosiect hwn.

**Ffair Haf** Cafodd Ffair Haf Ysgol Bethel ei chynnal nos Iau, Mehefin 12fed. Cafwyd noson gwerth chweil! Gwnaethpwyd elw o £1000. Roedd llawer o stondinau gwahanol ac aeth rhai o'r disgyblion ati i gymryd rhan yn 'Mae gan Bethel dalent'. Gwelwyd pob math o dalentau gwahanol! Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r ysgol, rydym yn ddiolchgar iawn

**Tenis** Aeth criw o ddisgyblion i gystadlu yn y gystadleuaeth Tennis yng Nghaernarfon ar y 10fed o Fehefin. Aeth pawb ati i wneud eu gorau, gan gystadlu yn erbyn llawer o ysgolion. Llwyddodd un tîm o fechgyn Bl6, bechgyn Bl5 a tîm bechgyn Blwyddyn 2 a 3 i fynd drwodd i'r rownd derfynol yn Wrecsam. Yn Wrecsam cafodd y bechgyn ddiwrnod prysur iawn o gystadlu yn erbyn ysgolion gwahanol. Roedd pob tîm yn chwarae'n dda iawn a pawb yn cydweithio'n dda. Llwyddodd y tîm gwyrdd i ddod yn ail. Llongyfarchiadau i bob tîm am gyrraedd Wrecsam. Gwych!

**Criced** Aeth criw o ddisgyblion Bl5 a 6 i gystadlu mewn cystadleuaeth criced yng Nghaernarfon dydd Iau, Mehefin 19eg. Roedd llawer o ysgolion yn cystadlu, ac roedd yn ddiwrnod prysur iawn. Llwyddodd bechgyn Bl6 i fynd drwodd i'r rownd derfynol a cael cystadlu yn erbyn bechgyn Bl5. Roedd yn gem agos ofnadwy, gyda'r ddau dîm yn chwarae'n wych! Yn y diwedd, llwyddodd bechgyn Bl6 i ennill y gystadleuaeth o 1 rhediad, mor agos! Aeth bechgyn Bl.6 ati i gystadlu yn yr ail rownd yn y gystadleuaeth criced ym Mhwlheli, dydd Mawrth, 24ain o Fehefin. Aeth y bechgyn drwodd i'r rownd gyn-derfynol, a chwarae yn arbennig yn erbyn

Ysgol Cymerau. Yn anffodus ar ôl gem agos, collodd Ysgol Bethel. Da iawn chi hogiau am chwarae'n dda ac am wneud eich gorau.

**Cyfeiriannu** Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i gyfeiriannu yn ystod y tymor. Roedd llawer o ysgolion yn cystadlu ac roedd rhaid i'r disgyblion weithio mewn parau er mwyn chwilio am gliwiau wrth redeg o amgylch Parc Padarn. Llwyddodd pawb i ddod o hyd i'w cliwiau wrth edrych ar y map. Da iawn chi! Cafodd Dylan a Cai fynd i'r rownd nesaf yng nghoedwig Glynllifon.

**Dathlu Ysgol Bethel** yn 150 mlwydd oed Mae Ysgol Bethel yn dathlu 150 o flynyddoedd eleni ac i nodi'r garreg filltir bwysig hon, trefnodd yr ysgol gyfres o ddigwyddiadau ar gyfer diwedd y tymor. Cafwyd taith gerdded a chyflwyniad ar hanes y pentref a thaith gerdded hanesyddol dan arweiniad yr hanesydd lleol, Gareth Roberts. Cynhaliwyd Cyngerdd yn Ysgol Brynrefail. Cyngerdd yn cynnwys holl ddisgyblion Ysgol Bethel (D-B6) a llu o gyn-ddisgyblion dawnus yr ysgol. Trefnwyd arddangosfa Ysgol Bethel Ddoe a Heddiw yn Y Neuadd Bentref. Arddangosfa i'r gymuned oedd hon yn adrodd hanes Ysgol Bethel o 1864 hyd heddiw a chyflwyniad hwyliog gan yr hanesydd Gareth Roberts. Roedd arddangosfa hefyd gan yr Archifdy.

**Gwirfoddolwyr** Parha ein gwirfoddolwyr i ddod i'n cefnogi yn yr ysgol. Diolch i Mr Gwerydd Griffiths, ein gwirfoddolwr darllen ffyddlon, i Richard Lloyd Jones am ei waith gyda'r grwp targed Rhifedd, i Gareth Jones am gynorthwyo gyda hyfforddiant tenis ac i'r 'genod gwau', Mrs Mary Hughes, Mrs Valmai Owen a Mrs Betty Owen. Diolch hefyd i'r rhieni sydd bob amser yn barod i'n cynorthwyo gyda gweithgareddau ac ymweliadau.

Tripiau'r Cyfnod Sylfaen Bu disgyblion y Cyfnod sylfaen ar daith addysgol i wneud gwaith maes yng Nghoed Doctor, Llanberis ac hefyd cafodd y plant daith maes anturus i draeth Dinas Dinlle. Roedd pob un wedi cael diwrnod gwerth chweil.

COFIWCH YMWELD Â GWEFAN YR YSGOL I WELD CANNOEDD O LUNIAU O'R DIGWYDDIADAU! [www.ysgolbethel.org](http://www.ysgolbethel.org)

I'R DISGYBLION

Ddoe, heddiw hafddydd oeddynt- ym Methel,  
rhoed mwythau amdanynt.  
O'u gwers, crwydro'r pedwar gwynt,  
a'u haddysg, llwyfan iddynt.

R. Ll. Jones



## Hunaniaith yn ennill gwobr genhedlaeth am brosiect arloesol

Hunaniaith yn ennill gwobr genhedlaeth am brosiect arloesol Mae prosiect wedi ei lunio ar y cyd rhwng Hunaniaith a Sgiliaith wedi ennill gwobr genedlaethol am 'Y Cynnwys Digidol Gwreiddiol Gorau - Addysg Bellach' yng Ngwobrau Dysgu Digidol Cymru 2014 yn ddiweddar.

Mae'r prosiect - Dwy Iaith ar Waith - yn ceisio darbwyllo myfyrwyr galwedigaethol Grwp Colegau Llandrillo Menai pa mor allweddol ydy gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg a Saesneg.

Cynlluniwyd y prosiect gan Sgiliaith, canolfan yn cynnig cymorth ar ddwyieithrwydd a sgiliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg i Golegau Addysg Bellach, drwy gynhyrchu cyfres o ffilmiau byrion o bobl fusnes llwyddiannus o'r sector breifat a chyhoeddus yn esbonio pwysigrwydd gwasanaeth dwyieithog i'w busnesau nhw.

Nod Hunaniaith, a gomisiynodd Sgiliaith i wneud y gwaith, oedd cynyddu'r nifer o fyfyrwyr fyddai'n dewis hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ac a fyddai hefyd yn gweld manteision gyrfaol a masnachol gallu gweithredu mewn dwy iaith yng Ngwynedd a thu hwnt.

Dyweddodd Dafydd Iawn, Cadeirydd Hunaniaith:

"Rydym yn eithriadol o falch bod ein gwaith ar y cyd gyda Sgiliaith a Grwp Colegau Llandrillo Menai wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol. Mi roedd hi'n bleser gallu cyd-weithio ar brosiect sydd wedi datblygu'n adnodd ar-lein gwerthfawr fydd ar gael i'w ddefnyddio gan golegau ar hyd a lled Cymru.

"Hyd yn hyn mae'r prosiect wedi bod yn hynod lwyddiannus a chwblhawyd y modiwl gan 70 o fyfyrwyr yn ystod ei wythnos gyntaf ar-lein. Rwy'n sicr bydd y wobr hon yn atgyfnerthu'r neges fod y Gymraeg yn gyfrwng perthnasol a hanfodol i unrhyw fyfyrwr galwedigaethol yng Ngwynedd a thu hwnt."

Am fwy o wybodaeth am Hunaniaith, ewch i'w tudalen Facebook [www.facebook.com/Hunaniaith](http://www.facebook.com/Hunaniaith) neu dilynwch @Hunaniaith ar Twitter.

## SAMARIAID

Mae

**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos  
rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

## Sefydliad y Galon

Diolch i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws yn diweddar er budd Sefydliad Prydeinig y Galon. Cyfanswm y casgliad yng Nghaernarfon a'r cylch eleni oedd £4886.51. Casglwyd y symiau canlynol ym mhentrefi dalgylch Eco'r Wyddfa: Penisarwaun - £184.74; Bethel - £268.59; Llanddeiniolen - £90.26; Waunfawr - £246.05; Caeathro - £128.92; Rhyd-ddu - £52.18; Deiniolen - £464.22; Dinorwig - £43.66; Nant Peris - £60.90; Llanrug - £727.19.

## Dathlu Gŵyl y Glaniad yn Y Bala

O dan awyr las Batagonaidd a haul tanbaid, daeth mwy na chant o bobl ynghyd i Glwb Golff Penlan, Y Bala, i ddathlu glaniad y Cymry cryf a dewr adawodd Lerpwl ar y Mimosa. Ar yr 28ain o Orffennaf yn y flwyddyn 1865 glaniodd dros gant a hanner o wyr, gwragedd a phlant ar draeth diffaith yn yr Ariannin, de America a elwir Patagonia. Mae disgynyddion y Cymry hynny yn parhau i gadw iaith a thraddodiadau "yr hen wlad" yn fyw yno.

Er y canmlwyddiant yn 1965 cryfhaodd y cysylltiadau ac mae mynd a dod parhaus rhwng y ddwy wlad. Ym 1939 sefydlwyd y gymdeithas a adnabyddir heddiw fel Cymdeithas Cymru-Ariannin i fod yn ddolen gyswllt rhwng y ddwy wlad.

Aelodau Y Gymdeithas sy'n gyfrifol am drefnu Gwyl y Glaniad ar y Sadwrn nesaf at yr 28ain o Orffennaf ar yn ail yn y de a'r gogledd. Tro'r gogledd oedd hi eleni a gwahoddwyd yr aelodau i ddathlu y Y Bala.

Sandra De Pol, Cadeirydd y Gymdeithas oedd yn tywys y gweithgareddau. Cafwyd gair o groeso ganddi a chanwyd anthem genedlaethol Yr Ariannin gydag arddeliad. Sara Borda Green o'r Andes ddaeth ymlaen i ddweud gair ar ran y gwsteion o Batagonia a Rebeca White o'r Gaiman oedd yn cynrychioli'r myfyrwyr sydd ar gwrs gloywi iaith ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd. Ymysg y gwsteion o'r Wladfa roedd Isaias Grandis, enillydd tlws y Dysgwyr ddwy flynedd yn ôl yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Roedd Isaias yn cael ei urddo ar ddydd Llun cyntaf Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar yn Llanelli eleni.

Paratowyd gwledd hynod gan Glwb Golff Y Bala. Tra'n gwledda cafwyd cyfle i gymdeithasu â chyfeillion o bell ac agos.

Talwyd diolchiadau gwresog gan Elvey McDonald, llywydd anrhydeddus y gymdeithas. Enillwyd y raffl oedd 1. John Adams Lewis, Aberteifi; 2. Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu; 3. Jois Snelson, Dinbych; 4. Sandra De Pol, Caerdydd; 5. Shirley Williams, Caerdydd.

Tra'n treulio'r bwyd blasus cafwyd adloniant gan dalentau lleol o Benllyn. Huw Antur oedd yn cyflwyno'r Tri Gog a Hwntw gan greu penbleth i'r rhai sydd yn methu cyfrif!! Penri Jones gyflwynodd rai aelodau o Gôr Godre'r Aran. Roedd y rhaglen yn amrywio o'r traddodiadol i ganeuon Robot Arwyn ac Ems. Rai blynyddoedd yn ôl daeth Alejandro Jones o Drevelin i dreulio cyfnod yn Llanuwchllyn yng nghartref y ddiweddar Aur Roberts yng Ngodre'r Aran. Ymunodd â'r côr ac roedd yn wefr ei gael i ganu gyda'r côr unwaith eto i gyfeiliant ei gitâr. Llwyddodd i greu awyrgylch arbennig a buasai Aur wedi bod wrth ei bodd. Gwerfyl Williams a Bethan Antur oedd y ddwy gyfeilyddes. Daeth y cyfarfod i'w derfyn gyda chydganu Hen Wlad fy Nhadau. Parhaodd y dathlu allan yn yr heulwen a'r ddwy faner yn cyhwfan gyda'i gilydd yn dyst i'r cwlwm cyfeillgarwch.

Y flwyddyn nesaf bydd dathliadau 150 o sefydlu'r Wladfa yn cael eu cynnal ledled Cymru a Phatagonia. Ceir gwybodaeth ar wefan y gymdeithas [www.cymdeithas Cymru-Ariannin.com](http://www.cymdeithas Cymru-Ariannin.com)



**ORIEL  
CWM**  
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau  
o bob math  
ar gael ar y safle  
**PRISIAU RHESYMOL**  
Arddangosfa o luniau  
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

**Richard S. Humphreys**

**Ffon/ Ffacs-  
(01286) 870882**



**TACLUSO CWN**  
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu  
NOSWEITHIAU 4-10**

**DYDD SUL 8yb-4yp**  
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen  
**(01248) 671382 • 07935324193**

ebost- [juliaposhpaws@btinternet.com](mailto:juliaposhpaws@btinternet.com)

## H. E. HUGHES A'i Feibion

**Bwthyn Gadlys Llanberis**



**GWERTHWR  
GLO ac  
OLEW GWRES  
CANOLOG**

**(01286) 870444**



**Syndod a Hyfrydwch** Yn y rhifyn olaf o'r Eco, fe fu inni longyfarch Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed. Erbyn hyn yr ydym yn deall iddi gael te parti yn y cartref. Yn ystod y parti cafodd ei synnu gan fod Alice, ei chwaer, wedi gallu dod o'r cartref ym Mangor. Pleser mawr a syndod oedd hyn iddi. Bu i Ann, merch Alice, baratoi ar gyfer yr achlysur hapus. Bu i'r ddwy chwaer gael mwynaud mawr drwy'r prynhawn yn sgwrsio am yr hyn a'r llall. Achlysur hyfryd iawn a phawb wedi mwynhau. Ymlaen am y cant rwan, Mrs Morris.

**Cydymdeimlad** Carwn anfon ein cydymdeimlad llwyrat at deulu y diweddar Gwilym G. Williams, Chwarel Goch gynt, ond a oedd erbyn hyn yn byw hefo'i wraig a'i ferch yn Llanddaniel Fab, Ynys Môn. Bu farw yn frawychus o sydyn yn 66 mlwydd oed. Cafodd y gwasanaeth claddu ei gynnal yn yr Amlosga Bangor. Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyrat at y teulu oll yn ystod y dyddiau tywyll yma. Boed iddynt gael nerth oddi uchod.

**Llongyfarchiadau** Yr oedd Efa Jane, 1 Bro Elidir, yn dathlu ei phen-blwydd yn ddwy oed ar Orffennaf 19. Mae ym mhob peth erbyn hyn. Llongyfarchiadau mawr iti a phob bendith, iechyd a hapusrwydd iti, Efa, i'r blynyddoedd a ddêl.

**Dymuniadau Gorau** Erbyn hyn, gwaetha'r modd, y mae y dyddiau yn tynnu i mewn, y dyddiau yn byrhau a'r hydref ar ein gwarthaf. Dywed hyn wrthym fod gwyliau'r haf yn tynnu tua'u terfyn a'r tywydd wedi bod yn garedig hefo hi'r haf yma. Carwn ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol i fynd i'r coleg neu i unrhyw swydd arall. Carem gofio am y rhai fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl, gan gofio nad oes ganddynt fath o syniad beth sydd o'u blaenau. Gobeithio y byddant yn gallu cartrefu i'r bywyd newydd mewn byr amser./

**Arholiadau** Llongyfarchiadau mawr i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio eu bod yn hapus hefo'u canlyniadau ac y gallant fynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud. Hwyl fawr a phob lwc i'r holl ieuencid i'r blynyddoedd a ddêl.

**Dymuniadau Gorau** Rydym yn dymuno'n dda i Ms Myfi Peris Evans, Sw'n yr Awel, gan ddeall nad yw ei iechyd yn rhy dda. Brysia wella, Myfi.

**Anfonwn ein cofion** hefyd at Mrs Alice Griffith sydd yn cartrefu yn Bryn Ffynnon, Bangor, ar hyn o bryd.

Cofion annwyl at bawb arall sydd yn cwyno yn eu cartrefi. Gwellhad buan ichi i gyd.

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU  
Conservatori UPVC  
Trwsio Unedau  
DOUBLE GLAZING  
Trwsio a Gosod Gwydr  
(01286) 872772  
Symudol- 07840 794269

"FFONIWCH DIONI I GAEL  
'BWCINGS' YCHWANEGOL  
DROS Y GAELAF"

tel: 01341 247 200  
ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI

Un funud fach ...

MILOEDD ... A THRI

Dros 2,000 o drigolion Gaza wedi eu lladd – y mwyafrif llethol ohonynt yn sifiliaid, yn cynnwys dros 400 o blant.

67 o drigolion Israel wedi eu lladd – 3 ohonynt yn sifiliaid.

Mae'r brwydro wedi para ers dechrau mis Gorffennaf, ar wahân i ychydig ddyddiau o ymatal rhag saethu. Ac mae'r ystadegau moel uchod yn dangos yn glir bod yna rywbeth eithriadol o anwastad ac anhafal ynghylch y dioddefaint a ddilynodd y saethu a'r bomio dros yr wythnosau diwethaf. Er cywilydd mawr, bu llawer ohonom yn hir iawn cyn sylweddoli beth oedd yn digwydd. Ond diolchwn am y bobl a fynnodd dynnu ein sylw at faint yr anghyfiawnder a dyfnder y dioddefaint ar Lain Gaza. Cafwyd protestiadau yn erbyn gormes difaol Israel ar bobl Gaza a chaed cyfle i gyfrannu arian at leddfu peth ar ddioddefaint miloedd lawer o bobl a phlant a ddaliwyd yng nghanol y gyflafan. Mae rhywbeth eithriadol o eironig yn y ffaith bod Israel ar y naill law yn ymfrostio yn y system fwyaf effeithiol o'i hamddiffyn ei hunan rhag taflegrau ac ar y llaw arall yn lladd pobl a phlant diamddiffyn yn Gaza wrth y cannoedd. Mae'r ffaith fod 3 o sifiliaid wedi eu lladd yn Israel a thros 2,000 yn Gaza yn dweud cyfrolau am y grym cwbl anghymesur a ddefnyddir yn erbyn pobl Gaza.

Nid mater o ochri yn erbyn pobl Israel yw dweud peth felly. Nid yw chwaith yn golygu esgusodi'r Palestinaid hynny sy'n gyfrifol am saethu'r taflegrau at Israel. Mater ydyw o amddiffyn y gwan a'r diamddiffyn sydd dan ymosodiad gwarthus a chywilyddus. Mater ydyw o sefyll o blaid pobl a phlant sydd yn cael eu gwasgu a'u cornelu, eu dychryn a'u clwyfo, eu dallu a'u cloffi a'u lladd wrth y dwsin. Y mae'n gwbl amhosibl cyfiawnhau'r hyn a welwyd. Gellid dechrau deall y rhesymeg dros yr ymosodiadau pe byddai degau a channoedd o bobl yn cael eu clwyfo a'u lladd ar ochr Israel i'r ffin. Ond pan nad oes dim o'r fath yn digwydd, mae'r hyn a wnaed yn Gaza yn gorfod cael ei ystyried fel terfysgaeth a lladd cwbl anesgusodol.

Gweddiwn am ddiwedd buan i'r brwydro presennol; gweddiwn dros y teuluoedd a gollodd anwyliaid, dros y bobl a'r plant a glwyfwyd, dros bawb sy'n ceisio gweini arnynt yn eu dioddefaint, dros bob asiantaeth sy'n estyn cymorth iddynt, dros bob Cristion sy'n dwyn tystiolaeth i gariad a chymod yr Efengyl, a thros bawb sy'n ceisio cyfiawnder a chymod yn y rhan gythryblus hwn o'r byd heddiw. Pwyswn ar ein llywodraethau i wneud popeth posibl er sicrhau hynny; a chyfrannwn yn ôl ein gallu at yr apeliadau a wneir am gymorth i'r dioddefwyr.

JOHN PRITCHARD

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040  
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ  
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft  
PRISIAU CYSTADLEUOL  
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

23



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Yn y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 17eg o Fehefin 2014:

- Cafwyd trafodaeth gyda PCSO Mike Sambrook. Dywedodd ei fod ar fin dechrau dysgu cymraeg ac yn awyddus i fynychu dosbarthiadau yn fuan. Roedd ei dîm yn dod i'r ardal mor aml ag y gallent ond ei bod yn anodd iawn gan fod yn dîm bychan a'r ardal mae'n ei wasanaethu yn fawr. Roedd wedi delio gyda achosion o ladrad a cheir heb eu trethu yn ddiweddar. Fe dynwyd ei sylw i geir yn cael eu parcio ger Tyddyn Elan sy'n ei gwneud hi'n anodd i geir basio ac yn peryglu'r ffordd i gerddwyr. Gofynnodd am rifau'r ceir yma. Sonwyd hefyd am broblem gor-yrro drwy Tan y Coed a Cheunant. Dywedwyd mai prif bryder y Cyngor yw nad oes digon o bresenoldeb yr Heddlu ar strydoedd y gymuned. Dywedodd y PCSO y byddent yn ceisio dod yn amlach os y gallent. Aethpwyd ymlaen i drafod problem baw cŵn. Dywedodd y PCSO fod yr Heddlu yn gallu rhoi dirwy o £80 os ydynt yn gweld pobl ddim yn codi baw eu ci i fyny.
- Roedd dogfennau wedi ei derbyn ynglyn a'r maes parcio ar sgwâr Llanrug s'yn cadarnhau mai'r Cyngor Cymuned yw perchnogion, ond y gallai'r Cyngor Sir ei fabwysiadu ar ôl chwe mlynedd. Penderfynwyd dilyn hyn i fyny gyda'r Cyngor Sir.
- Dywedwyd fod cŵyn am gyffuriau yn cael eu gwerthu ger Nant y Glyn wedi'i anfon i'r heddlu ac y dylai rhywun ymateb yn fuan.
- Dywedwyd fod problemau wedi codi i ddefnyddiwyd bysiau o ganlyniad i gwmni bysiau Padarn ddod i ben gan nad yw'r gwasanaeth bellach mor aml a bod gwasanaeth wedi ei golli yng Ngheunant. Mae'r trefniadau cyfredol yn peri trafferthion i bobl sydd yn ceisio teithio i ac o'i gwaith.
- Penderfynwyd cael prisiau am dorri coed yng nghae chwarae Glanmoelyn.
- Penderfynwyd pasio'r gŵyn am ddifrod i'r giatiau ar y llwybr ger Ogwen i'r Swyddog Llwybrau.
- D'oedd dim gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu tŷ a mynedfa newydd ar plotiau 4 a 5, cyn Garej Hafod, cyn belled a bod ceir yn cael eu parcio ar yr eiddo ac nid ar hyd Ffordd Llanberis.
- Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais i godi tŷ newydd a thanc septig ar y tir ger Llidiart y Rhos, Llanrug oherwydd pryderon am y fynedfa i Ffordd Llanberis. Hefyd 'roedd pryder am hawliau defnyddiwyd y llwybr cyhoeddus cyfagos.
- 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais am estyniadau yng nghefn 7 Glanffynnon, Llanrug.
- Dywedwyd bod defaid wedi creu difrod yn y fynwent yn ddiweddar ond yn dilyn sgwrs gyda'r ffermwr cyfagos, mae'n ymddangos fod y broblem wedi mynd.
- Dywedwyd fod cwyn wedi'i roi i Gyngor Gwynedd am y goeden sydd yn bylchu i'r ffordd o flaen Tyddyn Elan ac am lamp oedd wedi diffodd yn Bryn Moelyn.

### Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 20fed o Fai 2014:

- Adroddwyd fod llythrau cyfreithiol wedi'i hanfon ynglyn a'r gytundeb ynglyn a Chae Chwarae Pwll Moelyn.
- Dywedwyd fod y ffens rhwng tai'r Hen Ysgol a'r cae chwarae wedi'i thrwsio.
- Cytunwyd y byddai'r clerc yn cysylltu gyda swyddogion yr Eglwys i ofyn pryd mae'r talebau rhyfel yn cael eu symud o Gwm y Glo i Lanrug.
- Dywedwyd fod Menter Fachwen wedi cadw goleuadau Nadolig Cwm y Glo yn ddiogel nes bydd eu hangen.
- Adroddwyd fod pedwar Cynghorydd wedi cerdded rhai o lwybrau'r ardal ac eu bod wedi eu plesio gyda chyflwr y llwybrau. Nodwyd y dylid anfon y materion canlynol i sylw Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd: Teiars a bonyn coeden ar draws llwybr 27 ac un o arwyddion pren yn dynodi llwybr cyhoeddus ar lwybr Minffordd (77) wedi diflannu a'i bod yn anodd darllen yr arwydd arall.
- Penderfynwyd gofyn i'r giang cymunedol ddod i lanhau'r llwybr ger Garej Hafod.
- Adroddwyd fod rhywun wedi torri i fewn i CPD Llanrug Unedig.
- Dywedwyd fod pant wedi ffurfio yn y tir ym mhen pella'r fynwent. Deallir y byddai'r cwmni cerrig beddi yn archwilio'r safle.
- Roedd cwyn wedi'i dderbyn fod cyffuriau yn cael eu gwerthu ar lwybr cysylltiol Nant y Glyn. Penderfynwyd ysgrifennu tuag at Gareth Pritchard, Dirprwy Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i'w hysbysu o hyn a chyfeirio tuag at y lladrad yn Eithin Duon ac i ofyn am fwy o bresenoldeb yr Heddlu yn y gymuned.
- Dywedwyd fod yr arolwg bwsiau wedi cwblhau'r ar ran y Cyngor.
- Adroddwyd ei bod yn cymryd yn hirach na feddyliwyd i Menter Fachwen osod postyn ar lwybr Cae Chwarae Cwm y Glo.
- Dywedwyd fod coed angen eu torri yng nghae chwarae Glanmoelyn.
- Penderfynwyd datgan pryder am y cais i greu mynedfa newydd i Rhyd y Delyn, Llanrug gan y byddai mewn ardal sydd eisioes yn cael ei ystyried yn ran peryglus o'r gymuned.
- 'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i ail leoli milodfa ym Mryn Maen, Ceunant.
- Dywedwyd fod blociau yn rhydd ger y fynedfa i'r fynwent. Cytunwyd i drafod y gwaith gyda gweithiwr lleol.
- Cadarnhawyd ei bod yn amserol i wahôdd y PCSO newydd i gyfarfod mis Mehefin.
- Trafodwyd daflen wybodaeth am newiadau yn nhrefniadau casglu sbwriel a mynegwyd bryder o golli 15 o swyddi pe byddai hyn yn dod i rym. Penderfynwyd ymateb fod y Cyngor yn cytuno gyda nod yr adrefnu sef i hyrwyddo a chynyddu y nifer o bobl sydd yn ailgylchu ond dim yn cytuno i bymtheg golli eu swyddi ar draul hyn.
- Cyn ymateb i gais am dystlythyr i geisio sicrhau Swyddog Chwarae i Gyngor Gwynedd, penderfynwyd am fwy o fanylion am yr hyn mae wedi ei gyflawni tra yn y swydd er mwyn gwneud tystlythyr mwy ffethiol.
- Nodwyd gyda siom fod y Cynghorydd Berwyn Jones wedi penderfynu ymddiswyddo fel Cynghorydd. Rhoddir ystyriaeth i bwy fyddai yn dod yn ei le yn ystod cyfarfod Mehefin.

## Cronfa Goffa R. H. Owen

**Gwahoddir Ceisiadau oddiwrth  
Ddisgyblion Talgylch  
Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug**  
am **GRANTIAU** o'r Gronfa uchod. Ceir gwybodaeth  
a ffurflenni cais, drwy anfon amlen gyda chyfeiriad  
a stamp arno i'r ysgrifennydd-  
**John H. Hughes**  
"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis  
Gwynedd LL55 4SH  
Ffôn-(01286) 871562



Y CEISIADAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd  
erbyn **MEDI 30ain. 2014**  
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law  
ar ôl y dyddiad cau penodedig



## YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu  
**BWYD LLEOL**  
**BUSNESAU CEFN GWLAD**  
**ECONOMI WLEDIG**

**Trwy gefnogi Yswiriant FUW?**  
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

**Dafydd P. Jones 01492 642683**  
Dwyrain Sir Gaernarfon  
**Buddsoddi yn eich cymuned**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.  
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanberis

### COFNODION MEHEFIN 2014:

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis.

### PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Eurig Druce, Gwilym Evans, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp.

Ward Peris: Gwenda Roberts.

H e f y d

yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Olwen Gwilym, Iola Owen, Trystan Thomas.

### CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 20fed o Fai, 2014 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

### MATERION YN CODI O'R COFNODION:

#### 1. Defaid:

Dim pellach i'w adrodd, ond roedd y Clerc yn credu fod pethau'n symud ymlaen.

#### 2. Ysgol Feithrin:

Er i'r Clerc ysgrifennu at y swyddogion chafwyd dim ymateb i'r cais am fwy o wybodaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol yr ysgol.

#### 3. Meinciau Coffa:

Roedd y Clerc yn gobeithio y medrid rhoi placiau Cymraeg ar y meinciau yn y dyfodol agos.

#### 4. Aber Afon Goch (Landing):

Croesawyd y ffaith fod ceg yr afon wedi ei glanhau, lle mae'n llifo i'r llyn. Dywedwyd bod gwaith wedi ei wneud yno ddwywaith.

#### 5. Croesfan Gorsaf yr Wyddfa:

Roedd y Clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd (MW) . Disgwyl cyfarwyddid pellach yr oedd y swyddog, mae disgwyl mwy o wybodaeth yn fuan. Mynegwyd eto yr awydd i weld dychwelyd yr ynys er mwyn gwneud y lle yn ddiogelach.

#### 6. Lôn Fain, Nantperis:

Mae'r un swyddog ac yn Rhif 5 yn ymchwilio i weld a ellir lleoli llinell wen i atal trafnidiaeth yn dod o fuarth Ty Isaf.

#### 7. Adwy Ffordd Haearn:

Bydd y chwyn yn cael eu chwistrellu'r wythnos yma. Wedyn bydd angen dechrau planu, neilltuwyd arian i ganiatau dechrau'r gwaith, a'r Clerc i fod yn ddarbodus. Adroddwyd fod sibrydion na fyddai Jacky McMahon yn parhau ar ôl eleni i weithio ar erddi Llanberis. Bydd angen chwilio hefyd am rywun yn ei lle.

### MATERION ERAILL:

#### 1. Gorffwysfa, Bwlch Llanberis:

Crybwyllwyd fod yr hostel ieuencid (YHA) Gorffwysfa ym Mhen y Pas wedi ei hail enwi. Mallory's ydi'r enw ar y talceni ar ôl i'r adeilad gael ei foderneiddio. Mae bar a bwyty hefyd i agor yno yn fuan, fe allai'r enw gyfeirio at hynny. Roedd rhai o'r aelodau yn gresynu fod enw newydd wedi ei greu ar gyfer lle ag enw iddo'n barod. Gorffwysfa (Gorffwysfa Peris oedd yr hen enw) neu Pen y Pas ar lafar.

Hefyd crybwyllwyd fod dau focs amlwg wedi eu gosod ar ochr y ffordd ger yr hostel, a'u bod yn ddolur llygad mewn lle cyn arbennig.

#### 2. Torri Gwair:

Crybwyllwyd fod gweiriau heb eu torri yn Nôl Elidir ac yn y Nant. Mae'n ymddangos nad oes torri gwair mor aml eleni.

#### 3. Mainc:

Adroddwyd fod y Meinciau wedi eu gosod, yn y Fynwent a cae chwarae Min y Llyn. Cytunwyd i roi placiau Cymraeg ar y meinciau, ac i geisio cael rhai a fyddai'n debyg i'r rhai Saesneg.

#### 4. Piler atal parcio:

Holwyd tybed a fyddai modd tynnu un o'r pileri atal parcio ger mynedfa Maes Padarn er mwyn gwneud lle i gadair olwyn drydan i'r methodig fedru gyrru at y ty pen. Penderfynwyd holi Cartrefi Cymunedol Gwynedd a oedd modd gwneud hynny.

#### 5. Torri coed:

Cafwyd gwybod ei bod yn anodd gweld i fyny'r Ffordd Osgoi wrth ddod allan o Ffordd y Farchnad. Gofynnwyd a ellid tocio peth ar y coed i wella'r gwelediad.

#### 6. Brigau:

Adroddwyd unwaith eto nad ydi'r brigau coed wedi eu clirio y tu ôl i'r Ganolfan, er i'r Clerc ofyn i weithwyr Parc Padarn wneud hynny.

### GOHEBLAETH:

#### 1. Cyngor Gwynedd - Gorchymynion Cyflymder:

Copiau o rybuddion cyhoeddus cyfyngu cyflymder. Yn y plwy hwn bwriedir cyfyngu cyflymder i 30mya 'O bwynt 353 medr i'r de ddwyrain o ganol ei chyffordd ddeheuol gyda'r Stryd Fawr i gyfeiriad y de ddwyrain am bellter o 720 medr.'

### CYNLLUNIO:

#### Cyngor Gwynedd:

C14/0485/15/LL – codi estyniad unllawr i gefn eiddo – 3 Stryd Fawr, Llanberis.

Dim gwrthwynebiad.

### WEDI EU CANIATÁU

#### APCE: Caniatáu:

NP3/15/217A – trosi beudy yn uned gwyliau a creu mynedfa newydd i gerbydau a cerddwyr – Beudy (The Barn), 4 Gwastadnant, Nantperis.

### Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

#### Y Fynwent:

Popeth yn daclus a gwair Mynwent yr Eglwys i'w dorri cyn diwedd y mis.

#### Llwybrau:

1. Adroddwyd fod byrnen o wair/silwair i fwydo anifeiliaid yn rhwystr ar y llwybr o Bont Manllwyd.

### MATERION ARIANNOL:

Yn y Banc ar yr 28ain o Fai 2014

Cyfrif Cyfredol: £16,562.10 Cyfrif Cadw: £5,333.97

Gwariant y mis--£570

Derbyniadau y mis--£9560.26

### ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL: 2013 – 201

Cyflwynwyd mantolen llawn o dderbyniadau a gwariant ynghyd â dadansoddiad llawn o wariant yn ôl adrannau gan gymharu'r hyn a wariwyd yn y deuddeg mis diwethaf a'r blynnyddoedd blaenorol.

Derbyniwyd y cyfrifon. Roedd rhain eisioes wedi eu harchwilio a'u harwyddo gan yr Archwiliwr Mewnol, J D Roberts, Caernarfon. Arwyddwyd y Ffurflen Flynnyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cadeirydd a'r Clerc. Diolchwyd i'r Clerc am ei drylwyredd a'i ofal.

## Blodau Racca

PENISARWAUN





Rhodod o'r Galon  
Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Alwyn a Sarah Jones  
**(01286) 870605**



CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD  
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO  
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN  
CEIR, CAMPERS A FANIAU



## RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffn mewn rholiau

**AR GYFER  
POB  
ACHLYSUR**



PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU  
CIG O FFERMYDD LLEOL  
PARTION RHWNG 40-400!  
Cysylltwch a  
**John Brynafon  
LLANRUG**  
www.ydyncig.co.uk

**675190 • 673188**  
Symudol- 07798 718188



Mae'r Cyngor angen Clerc/Swyddog ariannol i ddechrau'r gwaith cyn gynted a bo modd.  
Bydd y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.  
Telir cyflog yn ôl 7.5awr yr wythnos. Cyfrennir at gostau ffôn, gwefan a defnydd o ystafell.  
Ceisiadau i'r Clerc: John B Jones, Ceris, Deiniolen, LL55 3LU  
01286 871 416  
Dyddiad cau i'r ceisiadau 30ain o Fedi 2014.

Mudiadau gwirfoddol y gymuned. Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan y Cyngor. Ceisiadau i'w cyflwyno i'r Clerc cyn diwedd Medi Crynodeb o gofnodion cyfarfod y 1af o Orffennaf :-

Gwedd. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd  
Sefyllfa anarferol:-

Cais cynllunio C14/0244/18/LL Coed Rhydu Llanddeiniolen. Ail gyflwyniad o gais ar gyfer gemau paent a newidiadau eraill a wrthodwyd gan Gyngor Gwynedd. 'Roedd yr ymgeisydd yn mynnu cael cyflwyno ei sylwadau ar wrthwynebiad blaenorol y Cyngor yn y cyfarfod yma. Gwrthodwyd hynny gan nad oes hawl i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod Cyngor Cymuned. Danfonwyd sylwadau'r ymgeisydd ymlaen llaw i'r aelodau. 'Roedd yr ymgeisydd Mr Tony Sigui a'i gydymaith Mr Nick Lee ynghyd â Mr Eric Land yn bresennol yn y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cadeirydd y mater, yn fanwl, gan bwysleisio mai Cyngor Gwynedd, yn y pen draw, sydd â'r hawl i ganiatau neu wrthod cais. Rhoddodd y Cadeirydd ddewis i'r aelodau naill ai:-

1. i lynu at y gwrthwynebiad blaenorol
2. trafod adroddiad Mr Toni Segui.

Cynigiwyd i lynu at y gwrthwynebiad, nid oedd cynnig i'r gwrthwyneb, eiliwyd y cynnig ac amlygwyd cefnogaeth unfrydol yr aelodau.

Eglurodd y Cadeirydd bod bwriad i wneud llecynnau pasio ar hyd y ffordd at Coed Rhydu a felly diddymu'r cyfeiriad at hynny.

Y rhaglen a fwriadwyd:-

Materion o gofnodion Mehefin:-

Dywedwyd nad yw'r amserlenni bws newydd wedi eu cyhoeddi eto.

Dywedodd y Cadeirydd bod y gostyngiad cyflymder i 20mya ym Methel yn effeithiol iawn.

Derbyniwyd diolch Kelly Jones ar ran Angylion Kelly, Bethel. Derbyniwyd hefyd ddiolch Pennaeth ysgol Brynrefail am y llythyr i longyfarch y Band Mawr ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Post Brenhinol. Ateb bod eu Rheolwr Cynllunio'r Casgliadau yn ystyried yr angen am flwch postio yn Stryd Fawr, Deiniolen.

Brynrefail. Ateb Mr Dafydd W. Williams, Cyngor Gwynedd, yn egluro bod Express Motors yn fodlon arbrofi trefn unffordd trwy'r pentref ond heb gael ateb hyd yn hyn, oddi wrth Arriva sy'n gweithredu'r gwasanaeth ar y Sul.

Tan Gaer/ Gors bach. Cais gan Wynedd am luniau neu rif achos heddlu fel tystiolaeth bod cerbydau mawr yn defnyddio'r ffordd - dywedodd Phyllis Ellis bod lluniau ar gael.

Ail-gylchu gwastraff. Ateb Gwynedd yn derbyn sylwadau Mehefin y Cyngor. Bwriedir cychwyn gwagio biniau bob tair wythnos yn ardal Arfon ddiwedd Mai/dechrau Mehefin 2015.

Goryrru, Dinorwig. Ateb Gwynedd yn gofyn pa leoliad sydd beryclaf. Dywedodd Idris Thomas bod gor yrru drwy'r pentref cyfan, yn enwedig heibio i Faes Eilian a bod polyn arwydd ym mhen uchaf Gallt y Foel heb

arwydd arno - llythyr i Wynedd.

Gohebiaethau a materion eraill.

Meddygfa Deiniolen, Llanberis a Llanrug. Derbyniwyd copi o lythyr Dr Robin Parry i Bwyllgor Meddygon Teulu Gogledd Cymru yn mynegi pryder am fod bwriad i leihau'r gefnogaeth ariannol yn sylweddol yn ystod y saith mlynedd nesaf. Penderfynwyd cefnogi pryderon Dr Parry.

Cynllunio

Canolfan Gymunedol Dinorwig. Derbyniwyd cais ar gyfer newid defnydd y ganolfan i lety hostel a chaffi. Gwrthwynebwyd y cais yma gan bod digon o hostels/bunk houses yn yr ardal yn barod. Caniatwyd datblygiad tebyg yng Nghapel Dinorwig yn ddiweddar.

Pe bai'r cais yn cael ei ganiatau:

Hostel ar agor 24awr, buasai'r holl fynd a dod yn amharu ar heddwch trigolion mewn pentref bychan gwledig ddydd a nos. Rhaid ystyried bod Ty'r Ysgol mor agos at y ganolfan.

Mae'r gweledd wrth deithio o'r Fachwen i'r ffordd fawr yn ddrwg iawn, be fyddai effaith 16 o geir ychwanegol ar hyn? Hefyd ceir yn parcio yn ystod oriau agor y caffi.

Mae'n amheus a oes lle i 16 o geir yn hen iard yr ysgol - byddai'n rhaid i rai barcio wrth ochr ffordd gul

Byddai'r effaith yn andwyol ar yr iaith Gymraeg, sy'n wan yn barod, yn Ninorwig.

Dywedodd Idris Thomas bod cynigion lleol wedi eu gwneud am y ganolfan. Penderfynwyd gofyn i Adran Eiddo Gwynedd a yw'r ganolfan wedi ei gwerthu i'r ymgeisydd cynllunio ac a oes modd ei gosod ar brydles (neu rhyw gynllun arall) i rywun lleol i'w defnyddio fel budd i'r ardal yn hytrach na hostel i ddieithriaid.

Cyfeiriodd Rachel Williams at effaith hostel yng Ngallt y Foel - 4 bws-mini yno yr un pryd.

Llwybrau

Torri tyfiant. Llwybr 93 heb ei dorri.

Dywedodd Elfed Williams bod angen sylw i dri llwybr: Ger Gorlan, Deiniolen, Cae chwarae Clwt y Bont ac at yr Incleyn - cwyn i Fenter Fachwen.

O gwmpas y bwrdd

Phylip Jones - Twll mawr yn y ffordd ger Bwlch Uchaf a phant ger yr hen waith dwr o hyd.

Idris Thomas - mae'r hyfforddiant swyddog cwn yn gweithio'n dda yn ysgol Gwaun Gynfi.

Geraint Elis - bin baw cwn ger Gors/Cynefin, Bethel wedi ei losgi.

Aled Green - angen torri coed ger Ty Newydd/Hafan, Lôn Perthi a ger y Ship, Pont Rhythallt.

Carolyn Roberts - 155 o'r pentrefwyr allan o 160 o blaid trefn unffordd trwy Frynrefail

Hefin Williams - angen torri coed o gwmpas goleuadau (gweler colofn Mehefin)

Jane Pierce - bwlch yn parhau yn y clawdd ger Ty Mawr ar ôl y ddamwain Rachel Williams - dim arosfan bws rhwng Deiniolen a Dinorwig, awgrymu gosod un hanner ffordd i fyny Gallt y Foel. Ychwanegodd Idris Thomas bod un ger Penlan ers talwm.

Llythrau i Wynedd ynglyn â'r uchod.

Richard Ll. Jones -

1. Llongyfarch ysgol Bethel yn 150oed.

2. Apêl yr Eco yn lansio gwefan

3. Swydd clerc, tybed a ellir defnyddio un clerc dros sawl Cyngor yn yr ardal?

Idris Thomas yn atgoffa o ddigwyddiad anffodus ym Mhen Llyn rai blynyddoedd yn ôl pan oedd un clerc yn gweithredu dros sawl Cyngor.

Rhoddion i fudiadau - hysbyseb yn y rhifyn nesaf o Eco'r Wyddfa.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2il o Fedi.

### Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED  
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED  
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

**Sion Roberts** ▶ **07759415753**  
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5


### BYSUS RHIWLAS

**BYSUS BACH A MAWR**  
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT  
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.  
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-  
Ffoniwch (01248) 361044



**D. P. OWENS RHIWLAS**





# Ar ben arall i'r lein

Tydi wedi bod yn haf eithriadol, haul bron pob dydd o fis Mai a dyma ni yng nghanol Awst a dim golwg am ddim ond ychydig o gawodydd trwm i leddfu rhyw fymryn ar y sychder. Mae dywediad yn y fro fod tri llif Awst yn hanfodol i ddenu'r eogiaid o Fae Caernarfon i'r afonydd. 'Roeddwn am ddweud fod hen 'sgotwrs y fro yn cyfeirio at y tri llif, hyd nes imi sylweddoli fy mod bellach yn un o'r hen 'sgotwrs 'ma! Ond fodd bynnag mae tywydd sych yn golygu dim sgota a felly mae wedi bod ar y tair afon ond, ar ddiwedd Gorffennaf, gwelwyd ychydig o sewin yn ymddangos ym mhyllau isaf y Seiont a'r Llyfni. Drwy i'r dyddiau redeg i Awst mae nifer y sewin yn cynyddu ac, fel petae rhyw ddewin wedi agor ei focs swyn, mae 'sgotwrs wedi ymddangos ymhob twll a chornel o'r Llyfni o Lyn Tro i'r môr.

Er bod yr afon yn isel mae'r pyllau bron i gyd yn llawn sewin, fel ag yr oeddynt gryn flynyddoedd yn ôl, mae'n anodd rhoi esboniad am y cynnydd sylweddol yma, a'r unig peth sy'n dod i'm meddwl yw'r ffaith fod gwaith uwchraddio wedi cael ei gynnal ar waith carthffos Penygroes a does dim cwynion wedi dod i law ers tri tymor am y llygredd beunyddiol a oedd gynt yn amlwg. Cawn weld os bydd adeiladu ar y gwelliant yma yn y dyfodol.

Anfonwyd llun imi o 'sgodyn braf a laniwyd o Lyn Lan Môr ac i bluen Dafydd Roberts, Penygroes ar 6ed Awst.

Er bod y Llyfni yn llawn pysgod a 'sgotwrs cyndyn iawn yw'r genweirwyr i droi allan ar y Seiont, er bod nifer o sewin braf yn rhai o'r pyllau fel Llyn Engan, Garnage a Crwn. Mae'r rhai sydd wedi mentro allan wedi cael eu gwobr a chefais glywed fod Gwyn Jones, Caernarfon, wedi cael nifer o sewin hyd at 4 pwys o Lyn Engan.

Mae'r stori wedi bod yn hollol wahanol ar y llynnoedd, ble mae Cwellyn a Nantlle wedi bod yn denu dilynwyr y brithyll brown gwyllt, does dim dau lyn gwell na'r rhain am hwyl a helfa reit dda. Efallai bod a wnelo eu poblogrwydd hefyd â'r ffaith bod mynediad iddynt yn hwylus dros ben. Mae hyn yn bwysig iawn y dyddiau yma, ble mae gallu mynd â'r car yn agos i'r man pysgota yn hanfodol!! Ar y llaw arall os am ymarfer tipyn ar y cyhyrau beth am gerdded rhyw ychydig i Lynnoedd Cwm Silyn neu Dwythwch ble dydi'r brithyll ddim cyn gymaint eu maint ond yn llawer mwy niferus. Ond o'r holl ddyfroedd does dim dwywaith nad Llyn y Dywarchen yw'r dynfa fwyaf, mae'r pysgota eleni wedi bod yn ddi-guro. Rhaid estyn diolch arbennig i griw y ddeorfa am ofalu a rheoli'r stocio misol, heb eu brwdfrydedd mi fuasai'n amhosib cynnal pysgota brithyll yr enfys o'r fath safon.

Drwy gysidro fod yr afonydd wedi bod bron yn amhosib i'w pysgota, mae ar y cyfan hyd yn hyn, wedi bod yn dymor go lwyddiannus, mae'r aelodaeth leol ar i fyny yn ogystal â'r

ymwelwyr. Mae hyn yn dderbyniol iawn gan fod problemau Padarn wedi ein effeithio yn drwm dros y pum mlynedd a fu. Rhaid diolch i berchenogion y pysgota rydym yn eu prydlesu am gadw eu ffydd yn y gymdeithas dros yr amser anodd yma.

Gan fy mod wedi cyfeirio at Lyn Padarn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dilyn iddynt gytuno i gais y gymdeithas ger bron yr Uchel Lys i gynnal ail ymchwiliad i lygredd Padarn, wedi cyhoeddi y bydd canlyniadau eu gwaith i law yn ystod Tachwedd eleni. 'Rydym oll yn gwir obeithio y bydd cyfeiriadau llawer mwy pendant at be ddylid eu gwneud i adfer y problemau presennol. Yn anffodus mae gennyf rhyw deimlad na fydd dim byd pendant ynglyn â llawer o'n problemau yn cael eu cynnig ac y bydd angen unwaith eto droi at y llysoedd i geisio cyflawnnder. Efallai fod y cyrff cyhoeddus yma yn teimlo ei bod yn addas iddynt chware rhyw gêm gyfreithiol er mwyn ceisio osgoi penderfyniadau anodd a hefyd eu cyfrifoldebau. Gobeithio'n wir fy mod yn anghywir, ond rwy'n delio â rhain ers dros ddwy flynedd ar hugain a phwy arall ond corff sydd ynghlwm â llywodraeth fuasai'n gallu anwybyddu eu cyfrifoldebau cyhyd.

Mae'r ardal yn gyffredinol yn ffodus fod y gymdeithas yn aelodau o 'Fish Legal' sydd yn delio a phroblemau Padarn. Mae'r gost gyfreithiol yn barod dros £40,000 o goffrau ein cynrychiolwyr, ond yn ffodus mae'r swm yma wedi ei ad-dalu yn dilyn ein cais llwyddiannus o flaen y llys. Ond, mewn difri, heb ein aelodaeth ni fuasai wedi bod yn bosib i neb lleol fod wedi herio Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mi fuasai'r rhain wedi bod yn ddigon bodlon i ddadlau nad llygredd oedd gwreiddyn holl broblemau Padarn a'r Seiont.

Fel rhyw gynffon i hyn i gyd mae Dwr Cymru wedi adnewyddu gwaith Carthffos Llanrug yn ogystal â phibellu carthion ardal Caeathro i waith Caernarfon. Ond eto yng Nghaernarfon mae problemau enfawr fel y datgelwyd yn y papurau lleol yn ddiweddar. Ond efallai bod y cwmni, o'r diwedd, yn dod yn effro i'w cyfrifoldebau.

Fel y gwyddoch mae'r clwb bob amser yn ceisio datblygu a chreu mynediad i rai gyda phroblemau symudedd, a rhaid diolch i'r mudiadau sydd mor barod i'n cefnogi'n ariannol er mwyn symud y gwaith pwysig yma 'mlaen. Ein cynllun diweddaraf yw creu mynediad a glanfa i gwch arbennig at ddefnydd rhai sy'n ddibynnol ar gadair olwyn. Mae'r gwaith sydd yn barod wedi dechrau wedi cael ei ariannu'n llwyr drwy garedigrwydd Parc Eryri, Y Loteri Fawr a Cist Gymunedol Gwynedd.

Huw Price Hughes.

## Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio  
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW  
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

## SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR  
YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.  
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post  
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN  
5.30am-7.30pm  
DYDD SUL  
5.30am-3pm



"Myfyrrion ac Atgofion Awst"  
Gerallt

Cynganeddwr a heliwr oedd feuryn  
o faril yr oesoedd anela'i bupro'r miloedd  
a'i lais â'r gân, haels ar goedd.

**Richard Lloyd Jones (Mêt)**

(pregethodd oedfa'r nos Mehefin 22 wedi i mi fod yno'n y bore  
yn Ninbych)

**Pregethwr-Gricedwr i Grist**

Deifiol yw'r un sy'n dyfod – a'i allu  
fel troellwr oedd syndod;  
batiwr- bowliwr i'r Un Bod  
heno, - yn faeswr hynod!

**O Natur unwaith eto  
Sgrech y Coed [Jay]**

[Magwyd nythiad ger y bwthyn ger Fach-Wen eleni]

Oni welir deuoliaeth, yn y llwyn  
rhwng llais a lliw odiaeth?  
y llun sy'n uwch-ddarluniaeth,  
ond, sgrechiad galwad – a gwaeth!

**Cnocell brith [Great Spotted Weedpecker]**

[eto mae teulu ohonynt o gwmpas ty]  
Ergydio brwd ar y cnwd cnau – a'i gap  
mor goch â hen fflamau,  
lliwiau'n hoen sy'n llawenhau  
ei oediad, - ond eiliadau.

Mae'r coed i gyd wedi cnydio'n dda eleni – ac y mae'r euron yn  
dechrau lliwio a hi ond dechrau Awst

**I foliant Criafolen [Rowan – Mountain Ash]**

Yn hwyr Awst a'r euron rhudd, er yr haul  
mae eu rhwysg yn rhybydd;  
i amser maent ladmerydd  
'rôl haf praff, daw'r gaeaf prudd.

**Gwylan y Penwaig [Herring Gull]**

Ei sgil yw byw'n ysgeler, - yn angau  
heb angen 'run Specsaver,  
yn waldio o'r uchelder,  
i mi – ei threni ffera' mër.

**Gwas y Neidr [Dragonflies]**

Hofrenyddion aflonydd uwch yr hil  
uwch yr hesg a edrydd  
yn nhes Awst 'rhen gynnwrf sydd  
yn lliwiau ffres y Llywydd.

Norman Closs

Cymorth i Ferched.



Aelodau Pwyllgor Anabl Merched y wawr, Rhanbarth Arfon  
yn cyflwyno sic am £2370 i staff ac Ymddiriedolaeth Cymorth  
i Ferched Bangor a'r Cylch. Codwyd yr arian trwy gynnal  
Distawrwydd Noddedig, Ffair Haf a Bwrdd gwerthu yn Ysbyty  
Gwynedd. Maent hefyd wedi cyfrannu dillad merched a phlant,  
dillad gwely a deunyddiau molchi i'r elusen yn ystod y flwyddyn.

Blwyddyn o wirfoddoli  
yn Affrica.

A hithau newydd dderbyn  
canlyniadau Lefel A, mae  
Chelsea Williams o Glwt  
y Bont ar fin cychwyn i  
Affrica i wneud gwaith  
gwirfoddol. Dros y  
misoedd diwethaf bu  
gweithgareddau codi arian  
yn cael eu cynnal yng  
ngwahanol gymunedau'r  
fro i alluogi Chelsea i  
deithio dramor.

Dymuna Chelsea a'r  
teulu ddiolch o galon i  
gymunedau Llanrug,  
Deiniolen a Llanberis  
am eu cefnogaeth.  
Cynhaliwyd nifer o  
weithgareddau, gyda'r cyfan yn dod i ben gyda  
thaith gerdded noddedig ganol Awst. Mae ei diolch  
yn arbennig i Wendy Jones, Tafarn Penbont a Jennie  
Thomas, Bro Rhuddallt, Llanrug, am drefnu nifer  
mawr o'r gweithgareddau. Diolch hefyd i Aled Morgan  
am godi £850, i Bwyllgor Carnifal Llanrug am £500,  
i Ferched y Wawr, Llanrug, ac i lu o unigolion eraill,  
yn deulu a ffrindiau rhy niferus i'w henwi.  
Ein dymuniadau gorau iddi ar ei menter, a da deall  
fod lle yn y Brifysgol yn aros iddi ar ei dychweliad, a  
hynny o ganlyniad i'w llwyddiant yn yr arholiadau.



**Dylan Griffith**  
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

Gwaith Cerrig Beddi  
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol  
24 Awr y Dydd  
Capel Gorfywys Preifat  
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**  
Cyrraethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*  
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Ymddiheuriad.

Sachliain a lludw – ac ymddiheuriadau i bawb o Gwm y Glo. Oedd, roedd newyddion y pentref yn y drafft cyntaf o'r "Eco", ond oherwydd amgylchiadau (gweler tudalen 3) bu'n rhaid ail-wampio a symud newyddion Cwm. Trwy amryfusedd, anghofiwyd eu hail-osod yn y drafft terfynol. Dyma gynnwys y cyfan y mis hwn felly....

Ysgol Cwm y Glo

Rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar y pentref ac wedi adnabod llawer o beryglon a gwaith sydd angen ei wneud yma. Ar ôl ysgrifennu llythyr at y Cyngor daeth Y Cynghorydd Brian Jones, Y Cynghorydd Gareth Roberts a Mrs Olwen Jones sydd yn byw yn y pentref i ateb rhai o'n cwestiynau. Cafodd pob un o blant Dosbarth Marchlyn gyfle i ofyn cwestiwn. Roedd gan Mrs Jones lawer i'w ddweud. Rydym yn gobeithio bydd llawer o bethau yn cael sylw fel cyflwr y palmentydd, tyllau yn y lôn, graffiti yn y pentref a blerwch sbwriel a baw cwn. Mae Y Cynghorydd Gareth Roberts wedi cysylltu efo llawer o bobl a rydym yn edrych ymlaen i weld mwy o bobl y Cyngor yn dod i ddangos i ni beth maent yn wneud. Diolch i bawb am ddod i wrando arnom.

Mae plant dosbarth Peris, y babanod, wedi cychwyn mynd i goedwig Glan Faenol bob bore dydd Llun. Roedd ein dosbarth ni yn genfigennus wrth eu gweld yn gadael yr ysgol yn eu dillad glaw. Wrth eu gweld yn dod yn ôl yn fwd i gyd ac wedi blino'n lân nid oeddem mor siwr. Roedd y plant bach wedi mwynhau ond 'da ni

ddim yn siwr am yr athrawon!

Cafodd Dosbarth Peris ymwelwyr bach yn y dosbarth - cwningod bach! Mrs Gweno Williams oedd wedi dod â nhw. Roedd 'na lawer o gynnwrf yn y dosbarth felly ar ddiwedd y prynhawn fe gawsom ni fynd i'w gweld. Diolch yn fawr Mrs. Williams.

Cafodd ein dosbarth ni ddiwrnod gwych yn Llanberis yn dysgu am bwysigrwydd dwr glân i fioamrywiaeth Llyn Padarn. Cawsom weld y system trin dwr, dysgu am fioamrywiaeth y llyn, hidlo a dysgu sut mae dwr yn gallu creu trydan. Rydym yn parhau gyda'r gwaith yn y dosbarth.

Aeth Miss Jones draw i weld Lucy a May yn cystadlu ym mabolgampau'r Urdd. Roedd y ddwy wedi mwynhau'r profiad.

Miss Jones aeth gyda Rhiannon i wersyll yr Urdd, Glan Llyn am benwythnos hefyd. Er bod y tywydd wedi bod braidd yn wlyb roedd y ddwy wedi mwynhau.

Roedd Gwyn wedi trefnu i gael casgliad i'r ysgol yn archfarchnad ASDA yn ddiweddar. Daeth enw'r cwmni draw i gyflwyno siec i gronfa'r Cyfeillion yn ddiweddar.

Hwyl tan tro nesaf – Robert, Keith, Katrina, Aaron a Rhiannon.

Diolch Dymuna Nia ddiolch yn fawr i'r Llywodraethwyr, Staff, Rhieni, aelodau o'r gymuned a phawb arall am y cardiau, anrhegion a geiriau caredig yn dilyn ei phenodiad diweddar i swydd Pennaeth yr ysgol. Diolch o galon, rwyf yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn edrych ymlaen at gydweithio i sicrhau dyfodol disglair i'r ysgol!



Cynghorydd Gareth Roberts, Cynghorydd Brian Jones, Mrs Olwen Jones yn gwrandao ar bryderon y plant am y pentref.



Mrs Gweno Williams yn cyflwyno un o'r cwningod i Finbar, Jac, Lewis, Callum a Jamie.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Julie Denny a'r teulu, Glasfryn, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Mrs Beryl Parry, Hebron, ar ôl derbyn llawdriniaeth i'w phen-glin ac i Mrs Gwyneth Roberts,

Bod Gwynedd, ar ôl derbyn llawdriniaeth i'w chlun.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Dilwyn Morris (Becws) sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau

I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor cyfarfu'r aelodau a'u ffrindiau yn yr Harbwr Caernarfon, am un o'r gloch bnawn Mawrth, 17 Mehefin.

Mwynhaodd pawb eu cinio a diolchodd Hilda i Auriel am drefnu'r achlysur. Atgoffwyd pawb am y gwasanaeth yn eglwys Llanfaelog ar 30 Gorffennaf. Bydd ein cyfarfodydd yn ail ddechrau ym mis Medi.



## RHEDEG MYNYDD

Daeth cyfres Rasys Nos Fawrth wedi eu noddi gan Jo Brown, Llanberis, i ben fel yr oedd rhifyn Gorffennaf yn dod o'r wasg. Roedd dros 200 o redwyr wedi cymryd rhan yn y deg ras, gyda bron i hanner y rheini yn cwblhau pedair ras neu fwy. Ac yn ôl y darogan, roedd rhedwyr o'r fro yn amlwg ar ddiwedd y gyfres.

Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr oedd seren y gyfres. Enillodd adran y merched a hefyd yr adran i ferched dan 18 oed. Enw i'w wyllo i'r dyfodol! Ond doedd ei thad ddim am golli allan chwaith, a daeth Paul Jenkinson yn drydydd yn yr adran i ddynion dros 40 oed. Tad a merch yn hawlio gwobrau, a mam a mab yn eu dilyn – gyda Stel Farrar, Dinorwig yn ennill yr adran i ferched dros 50 oed, a'i mab, Mabon Llyr yn dod yn ail i fechgyn dan 18 oed.

Daeth Arwel Lewis, Bethel yn ail yn yr adran i ddynion dros 50 oed, a Maggie Oliver, Dinorwig a Dafydd Thomas, Llanrug yn ennill yr adrannau i ferched a dynion dros 60 oed.

Daeth enw newydd i'r brig yn ystod Ras Elidir, gyda Gareth Hughes, Penisarwaun yn ennill, a hynny ar y tro cyntaf iddo gystadlu'n y ras! Roedd Gwion Williams a Richard Evans, y ddau o Fethel, yn ail a thrydydd yn yr adran i ddynion dros 40 oed. Unwaith yn rhagor, daeth Stel Farrar y ferch gyntaf dros 50 oed, a Maggie Oliver a Dafydd Thomas, yn gyntaf dros 60 oed.

Ym Mhen Draw'r Byd (Aberdaron ar y map) cynhaliwyd Ras Ffordd a Ffridd wyth milltir. Daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn ail, ddeg eiliad yn unig tu ôl i'r enillydd o Gaer. Noel Craine, Llanberis enillodd yr adran i ddynion dros 50 oed.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Ras y Cnicht wedi bod, a Ras Maesgwm (yr olaf yng nghyfres Pencampwriaeth Prydain am eleni) ar fin ei cynnal. Yna daw ras 10 cilomedr Caernarfon, a Ras Pedol Peris i'w chynnal yn ystod Medi. Na, dydi'r tymor ddim drosodd eto!



## I Flaen Y Ciw

Braf yw cael llongyfarch Lee Roberts, 13 oed, o Ddeiniolen sy'n gwneud dipyn o enw iddo'i hun ym myd Pŵl. Er ei oedran mae Lee yn aelod selog o dim pŵl y Wellington. Mae'r profiadau yma yn amlwg wedi miniogi ei dalent. Mae Lee wedi ei ddewis i chwarae yng ngharfan Cymru fydd yn cystadlu yn y 'Nations Cup' ym mis Tachwedd. Eleni, cynhelir y gystadleuaeth yn Coleraine, Gogledd Iwerddon. Dymuniadau gorau iddo, ac edrychwn ymlaen i glywed sut hwyl gafodd draw yn yr Ynys Werdd.

## AI HWB YMLAEN?

Yn yr Eisteddfod mewn sgwrs, awgrymodd Huw Edwards fod cyflwyno elfennau mwy cynhenid Gymreig i Newyddion Naw S4C, yn hytrach na chyfieithiad slafaid o Wales Today yn ennill ei blwy bellach. Yn awr wele ddatblygiad cyffelyb ym myd chwaraeon.

Ym mis Medi bydd rhaglen gynhwysfawr Y Clwb yn llenwi 5 awr o ofod chwaraeon ar S4C ar bnawn Suliau. Y prif atyniadau fydd unai gêm fyw o Uwch Gynghrair Pêl-droed Cymru neu un o gemau rhanbarthau Cymru yn y gynghrair rygbi Pro-12. Yn y cyswllt yma onid braf fuasai gweld un gêm yn cynnwys tîm RGC Gogledd Cymru i gadarnhau statws a datblygiad pumed 'rhanbarth' Cymru? Yn atodol bydd sylw hefyd i gampau sy'n datblygu mor gyflym yng Nghymru bellach, fel seiclo, rhedeg mynydd, bocsiso a.y.y.b. Dyma lwyfan gwyh i gyflwyno chwaraeon Cymru, yn enwedig o gofio perfformiadau Tîm Cymru yng nghemau'r Gymanwlad.

Yn dilyn y campweithiau yn Glasgow – heb nifer o'r sêr oherwydd anaf – fe gyfyd eto y galw am Dim Cymru ar gyfer yr Olympiad. Neu dîm criced cenedlaethol.

Onid un o brif amcanion datganoli oedd cynyddu hyder ni'r Cymry yn ein galluoedd cynhenid ein hunain. Ni allwn fod yn 'fabi mam' yn gorfod gafael yn llaw 'brawd mawr' am byth.

Bydd llawer yn craffu ar ffigyrau gwyllo y rhaglen newydd. Bydd eraill yn nodi maint y torfeydd yn y gemau byw. Ac wrth gwrs bydd rhaid cystadlu a'r gêm fyw o Uwch Gynghrair Lloegr. Lerpwl a Man U sy'n dal teyrngarwch y mwyafrif Gymreig. Pa gêm fyddwn ni yn 'recordio' tybed, neu a fydd S4C ddigon call i amseru eu gêm fyw fel na fydd gwrthdaro.

O roddi'r fath lwyfan mae'n her i'n clybiau ym mhob camp i wneud eu perfformiadau yn safonol ddengar. Amser cyffrous i chwaraeon Cymru yn sicr. Manteisiwn ar y cyfle, gobeithio. Ac wrth gwrs, i gefnogi yr alwad fawr o Eisteddfod wych Sir Gâr, dyma gyfle i wyllo, dadlau, trafod ac ymateb yn y Gymraeg.

## Tim Ysgol Llanrug yn dathlu



Trydydd wobwr yn ras gyfnewid Pencampwriaeth yr Urdd ym Mae Colwyn.



## Gwasanaeth Oes i Beldroed yn Llanberis.

Llongyfarchiadau i Eurwyn Thomas ar dderbyn Gwobr Gwasanaeth Hir-oes gan Gymdeithas Beldroed Cymru. Fe'i cyflwynwyd a'r anrhydedd gan Lywydd y Gymdeithas Beldroed, Trefor Lloyd Hughes. Bu Eurwyn yn ysgrifennydd Clwb Beldroed Llanberis am ddeugain mlynedd, ac ef bellach yw cadeirydd y clwb.



# TLWS YR ECO 2014



Fel ym Mrasil tywydd crasboeth oedd yn disgwyl y timau eleni. Diolch i glwb Llanrug am wahodd y timau dan 9 i Eithin Duon, a chlwb Ieuenctid Llanberis am y trefniadau trylwyr hefyd ar Gae'r Ddôl. Diolch yn arbennig i dimau y cytiau panad a 'chwn poeth' yn y ddau safle. Mae rhain yn fodd i'r clybiau sy'n gwahodd y cystadlaethau i wneud tipyn o arian.

Denwyd saith tim i'r gystadleuaeth dan 9: 4 o Lanrug, 2 o Ddeiniolen ac un o'r Waunfawr, arwydd pendant o dyfiant a threfniant pêl-droed ieuenctid yn Llanrug. Gobeithio y gwelwn ddychwelyd timau dan 9 i Fethel a Llanberis yn y dyfodol agos.

Yr oedd cyflwr arbennig maes Eithin Duon yn ffafrio pêl-droed cyflym a llyfn ac yr oedd dylanwad yr hyfforddi clodwiw yn amlwg. Nifer o'r chwaraewyr yn gyfforddus ar y bêl, a'r symud i greu lle ar faes cyfyng yn amlwg. Fel pob blwyddyn arall rydym yn magu gôl-geidwaid dawnus yn yr ardal a chafwyd sawl arbediad cofiadwy.

Rhanwyd y timau yn ddwy gynghrair gyda pawb yn chwarae ei gilydd. Roedd y pedwar tim uchaf yn cyfarfod yn y rownd gyn-derfynol. Yn y gêm gyntaf roedd tim Clwb Llanrug yn cyfarfod Tim Tony Deiniolen. Roedd hi'n agos iawn ar yr hanner, ond yna daeth tair gôl sydyn gan Jac, Gwion ac Osian i yrru Llanrug i'r ffeinal.

Gwahanol iawn fu'r ail gêm rhwng Tim Meirion Llewod Llanrug a Thim Len Deiniolen. Chwip o gêm – taclo cry, digon o ergydion am y gôl, sawl arbediad gan gôl geidwaid – ond dim goliau. Ymlaen felly nes cyrraedd y Gôl Aur. Daeth honno yn fuan yn yr amser ychwanegol o droed Ben Ellis, ac felly darbi rhwng Tim Clwb Llanrug a'r Llewod am y tlws.

Roedd y dorf niferus yn eiddgar, a chafwyd gêm i'w chofio. Gêm yn llifo a gêm o safon. Roedd awch i'r gêm. Pwy tybed fuasai'n

rheoli'r buarth yn yr Ysgol drennydd? Wel, y Llewod aeth a hi o 3-2. Goliau Sion, Dafydd a Ben yn drech na goliau Owain a Jac. Yn sicr mae'r ffatri creu am gadw dyfodol pêl-droed yn ardal Llanrug yn iach ar gyfer y tymhorau nesaf. Pleser oedd cael Eifion Williams, capten llwyddianus C.P.D. Llanrug – un a ennillodd Dllws yr Eco sawl gwaith – i gyflwyno'r Tlws.

Y noson ganlynol symudodd y sioe i Gae'r Ddôl ar gyfer y Tlws dan 11. Chwe tim y tro yma – 3 o Lanrug, ac un yr un o Fethel, Waunfawr a Deiniolen. Pawb yn chwarae ei gilydd a'r ddau dim ar frig y tabl yn wynebu ei gilydd yn y rownd derfynol. Cafwyd sawl gêm glos ond roedd yn amlwg fod gan dim Llanrug 'A' garfan gref. Roeddent yn bell ar y blaen ond oddi tanynt roedd tri thim - Llanrug 'B', Bethel a'r Waunfawr ar yr un faint o bwyntiau. Gwahaniaeth goliau felly, a thim Llanrug 'B' yn arwain o un gôl yn unig. Brwydr fewnol rhwng dau dim Llanrug am y Tlws, felly. Fel ym mhob blwyddyn mae un tim – y 'B' - o hyd flwyddyn yn iau na'r llall. Pwy fuasai'n meddwl. Stori'r gôl-geidwaid eto. Sawl arbediad, taro'r postyn, clirio oddi ar y llinell. Ffeinal i'w chofio eto. Tomi Llywelyn yn rhoi y 'B' ar y blaen. Oedd sioc i fod? Yn ôl daeth yr 'A' a Rhodri Slaven yn unioni'r sgôr. Y gêm yn llifo, sawl cyfle ond oedd arwr i fod? Yna gyda munud i fynd, Cian yn torri i lawr yr asgell dde a'i groesiad yn twyllo pawb yng ngheg y gôl a tharo cornel y rhwyd. 2-1 i Lanrug 'A'. Yn ôl daeth y 'B' ond heb lwyddiant. Tim Hyn y Llewod felly dan hyfforddiant Dyfed yn cipio'r tlws wedi noson fu'n wled i'r dorf niferus. Daeth Manon Williams sydd mor weithgar gyda chlwb Llanberis ymlaen i gyflwyno'r tlws a'r medalau. Dwy noson gystadleuol ond di-drafferth. Dyna gyfrinach y gystadleuaeth arbennig yma.

Diolch i bawb mewn unrhyw fodd sydd yn cynnal y ddelfryd yma mor llwyddianus o flwyddyn i flwyddyn.

## Cystadleuaeth Golff Clwb Peldroed Llanrug.

Ar gwrs Tyddyn Mawr, Llanrug ar ddydd Sul ddiwedd Awst, cynhaliwyd twrnameint golff er budd Clwb Peldroed Llanrug.

Daerth nifer dda o chwaraewyr y tim, aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr i gystadlu, a bu'r tywydd hefyd yn ffafriol.



Buddugol - Mark Jat, Darren Phillips, Chris Joyce a Dylan Owen



Tim - Ail - Aled Owen, Kevin W Owen, Ceirion Williams a Iwan P Jones





## Prif Hyfforddwr.

Wedi bron i bymtheg mlynedd o ffyddlondeb a dyfalbarhad yn dysgu plant ac oedolion yn Academi y 'Burman Martial Arts Self-defence and Fitness' yn Llanberis, mae Sensei Ieuan Griffith o Dan y Coed wedi ei ddyrchafu yn Brif Hyfforddwr. Mae'n bedwerydd Dan Belt Du, ac yn mwynhau'r grefft.

## Pencampwriaeth Trac a Maes Cymru

Casglodd athletwyr ifanc gorau Cymru yn Abertawe ar ddechrau mis Awst ar gyfer Pencampwriaeth Dan 13 a Dan 15 Trac a Maes Cymru. Ymhlith y rhai a deithiodd o'r gogledd oedd Anya Williams o Lanrug.

Er mai dim ond yn y flwyddyn gyntaf yn yr oedran Dan 13 mae'r sbrintiwr lleol, un ar ddeg oed, arddangosodd y athletwraig dalent sbrintio yn ei Phencampwriaeth Gymreig gyntaf yn yr awyr agored.

Wedi ennill ei ras ragbaratoi 100m mewn amser o 14.37 eiliad aeth ymlaen i redeg amser gorau personol o 13.87 eiliad yn y rownd derfynol i ennill medal efydd haeddiannol. Ddeng munud yn ddiweddarach roedd yn rhaid iddi redeg yn ei ras ragbaratoi 200m ond llwyddodd i sicrhau lle yn y rownd derfynol gydag ail safle mewn amser o 29.99 eiliad. Ar ôl cael amser i adennill ar gyfer y rownd derfynol gwellodd ei hamser i 29.36 eiliad i hawlio ei



hail fedal efydd o'r dydd!

O ystyried ei hoedran roedd y canlyniadau yn gamp fawr i Anya a fydd yn cystadlu dan yr un oedran y flwyddyn nesaf.

## Gwella Cam Wrth Gam



Gwnes ddefnydd dros y blynyddoedd diwethaf o astudiaeth fanwl Meilir Emrys, Bethel, o hanes datblygiad chwaraeon yng Nghogledd Cymru. Dyma oedd testun ei draethawd gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ef hefyd yw prif leisydd y grwp Vanta.

Ond mwy na hynny, mae'n aelod ffyddlon o Jacs y Gogledd sydd mor daer eu cefnogaeth i Elyrch Abertawe. Mae'n eu dilyn yn rheolaidd, a gobeithio y caiff hwyl ar ei deithiau eleni. Ond rhedeg sy'n ei ddenu ar hyn o bryd.

Teithio am reswm arall wnaeth Meilir yn ddiweddar. Wedi iddo gystadlu yn räs Hanner Marathon Caerdydd wynebodd her Hanner Marathon Chicago. Yng Nghaerdydd llwyddodd i gwblhau'r cwrs mewn 1a55m. Wedi dychwelyd adref llwyddodd i wella'r amser i 1a49m yn hanner marathon y Rhyl. Cam yn y cyfeiriad iawn.

Yn ôl i Chicago. Cymerodd Meilir ran mewn dwy räs. Yn gyntaf räs 7km – rhyw lonc cynhesu cyn y brif räs drennydd. Roedd y cwrs yn arwain ar hyd lan Llyn Michigan gyda 1100 yn cystadlu. Llwyddodd Meilir i orffen yn safle 74 – boddhaol iawn yn ei räs gyntaf 'ryngwladol'. Yna'r prif ras gyda 13,000 yn cystadlu. Räs ar hyd strydoedd Chicago oedd hon, a hynny mewn tymheredd uchel iawn. Mae Meilir yn cyfaddef fod hon yn dipyn o her, ond roedd yn hynod falch o'i amser terfynol o 2 awr.

Bwriad Meilir yw gweithio ar ei ffitrwydd a symud yn y diwedd i redeg pellter clasurol y Marathon lawn. Erbyn hyn, mae nifer o redwyr fel Meilir yn yr ardal hon. Onid braf fuasai gweld un – neu fwy – ohonynt yn nhim Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad nesaf yn 2018. Araf deg mae mynd yn bell.

